


# ANSAWDD YN GYNTAF

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2010/11



















# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON Y BBC 2010/11

**Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ar orchymyn Ei Mawrhydi**

**Gorffennaf 2011**

Gosodwyd fersiynau ehangach o'r datganiadau ariannol yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn gerbron y Senedd hefyd ar 12 Gorffennaf 2011 ac maent ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport

| Mynegai pwnc | Rhan 1 | Rhan 2 |
|---|---|---|
| Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |
| Cymeradwyaeth y gynulleidfa – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-23 |
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd o 2011/12 | | 2-61 |
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd 2010/11 | 1-20 | 2-60 |
| Cwmnïau masnachol | 1-19 | 2-46/2-69 |
| Gwariant ar gynnwys fesul gwasanaeth | 1-19 | 2-4 i 2-7 |
| *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* | 1-7 | 2-36 |
| Newid i ddigidol | 1-9 | 2-40 |
| Natur nodedig – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6/1-25 | 2-31 |
| Arbedion | 1-7 | 2-69/2-71 |
| Arloesi | | 2-45 |
| Ffi'r drwydded | 1-24 | 2-3 |
| Gwariant ffi'r drwydded | 1-17 | 2-69/2-73 |
| Cynulleidfaoedd newyddion | 1-8/1-13 | 2-19 |
| Pwrpasau cyhoeddus | 1-8 | 2-14 |
| Ansawdd – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-27 |
| Radio o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau | 1-12 | 2-12 |
| Cyrhaeddiad – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-35 |
| Cyrhaeddiad fesul gwasanaeth | 1-10 | 2-4 i 2-7 |
| Cyrhaeddiad (sianel BBC News o gymharu â Sky) | | 2-10 |
| Cyrhaeddiad (radio'r BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol) | | 2-9 |
| Cyrhaeddiad (teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol) | | 2-8 |
| Perfformiad gwasanaeth | 1-10 | 2-4 i 2-7 |
| Rheoli staff a chydnabyddiaeth | 1-37 | 2-41 |
| Costau talent | 1-18 | 2-44 |
| Amser a dreuliwyd gyda'r gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth | 1-37 | |
| Ymddiriedolaeth – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-19 |
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1-35 | |
| Cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth 2011/12 | 1-42 | 2-12 |
| Gwariant rhaglennu teledu fesul Rhanbarth | | 2-12 |
| Gwerth am Arian: Cost fesul Defnyddiwr fesul gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |



**Hawlfraint**
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.



**Dyluniad**
luminous.co.uk

**Cyfieithiad**
Prysg Cyf


**Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Siarter Frenhinol 2006 y BBC (adran 45).**



# RHAN I
# AROLWG AC ASESIAD YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Ymddiriedolaeth | BBC

## Rhan 1
## Ymddiriedolaeth y BBC

**Trosolwg**
1-1 Rhagair y Cadeirydd
1-2 Crynodeb o'r flwyddyn
1-4 Barn y Cadeirydd ar ôl mis yn ei swydd
**Perfformiad y BBC**
1-6 Amcanion strategol
1-8 Pwrpasau
1-10 Perfformiad gwasanaethau
1-15 Sicrhau safonau golygyddol
1-17 Perfformiad ariannol
1-18 Cyflawni gwerth am arian
1-21 Masnach deg
**Perfformiad yr Ymddiriedolaeth**
1-24 Setliad ffi'r drwydded
1-25 Gwella ansawdd a natur nodedig
1-26 Gwella gwerth am arian
1-27 Bod yn fwy agored a thryloyw
1-28 Gwasanaethu pob cynulleidfa
**O fewn yr Ymddiriedolaeth**
1-30 Ymddiriedolwyr y BBC
1-32 Llywodraethu
**Cymryd rhan**
1-40 Ymgysylltu â'r gynulleidfa
1-41 Cynghorau Cynulleidfa
1-42 Cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011/12
1-43 Cysylltu â'r Ymddiriedolaeth


| Mynegai pwnc | Rhan 1 | Rhan 2 |
|---|---|---|
| Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |
| Cymeradwyaeth y gynulleidfa – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-23 |
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd o 2011/12 | | 2-61 |
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd 2010/11 | 1-20 | 2-60 |
| Cwmnïau masnachol | 1-19 | 2-46/2-69 |
| Gwariant ar gynnwys fesul gwasanaeth | 1-19 | 2-4 i 2-7 |
| *Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf* | 1-7 | 2-36 |
| Newid i ddigidol | 1-9 | 2-40 |
| Natur nodedig – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6/1-25 | 2-31 |
| Arbedion | 1-7 | 2-69/2-71 |
| Arloesi | | 2-45 |
| Ffi'r drwydded | 1-24 | 2-3 |
| Gwariant ffi'r drwydded | 1-17 | 2-69/2-73 |
| Cynulleidfaoedd newyddion | 1-8/1-13 | 2-19 |
| Pwrpasau cyhoeddus | 1-8 | 2-14 |
| Ansawdd – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-27 |
| Radio o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau | 1-12 | 2-12 |
| Cyrhaeddiad – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-35 |
| Cyrhaeddiad fesul gwasanaeth | 1-10 | 2-4 i 2-7 |
| Cyrhaeddiad (sianel BBC News o gymharu â Sky) | | 2-10 |
| Cyrhaeddiad (radio'r BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol) | | 2-9 |
| Cyrhaeddiad (teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol) | | 2-8 |
| Perfformiad gwasanaeth | 1-10 | 2-4 i 2-7 |
| Rheoli staff a chydnabyddiaeth | 1-37 | 2-41 |
| Costau talent | 1-18 | 2-44 |
| Amser a dreuliwyd gyda'r gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth | 1-37 | |
| Ymddiriedolaeth – Dangosydd Perfformiad Allweddol | 1-6 | 2-19 |
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1-35 | |
| Cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth 2011/12 | 1-42 | 2-12 |
| Gwariant rhaglennu teledu fesul Rhanbarth | | 2-12 |
| Gwerth am Arian: Cost fesul Defnyddiwr fesul gwasanaeth | | 2-4 i 2-7 |


**Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Siarter Frenhinol 2006 y BBC (adran 45).**

Mae'r llun ar y clawr yn dangos sioe gomedi newydd ar gyfer 2010, *Grandma's House*, a ysgrifennwyd gan Simon Amstell, sydd hefyd yn perfformio yn y sioe, a Dan Swimer.

# Rhagair y Cadeirydd



## Rhoddwyd sicrwydd i dalwyr ffi'r drwydded gan y BBC drwy setliad ffi'r drwydded, gyda chytundeb yn para hyd at 2017.

Ymunais fel Cadeirydd ar 1 Mai 2011; mae fy adroddiad yma yn cwmpasu blwyddyn pan arweiniwyd yr Ymddiriedolaeth gan fy rhagflaenydd, Syr Michael Lyons. Ar dudalen 1-4 rwy'n rhoi fy marn ar y BBC a'i ddyfodol ar ôl mis yn fy swydd.

Cyrhaeddais ar ddiwedd blwyddyn fawr i'r BBC. Rhoddwyd sicrwydd i dalwyr ffi'r drwydded gan y BBC drwy setliad annisgwyl ar ffi'r drwydded, a negodwyd ym mis Hydref 2010, gyda chytundeb yn para hyd at 2017. Ym mis Rhagfyr 2010 cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth arolwg o strategaeth y BBC a oedd yn nodi cynllun yn egluro sut y byddwn yn rhoi'r setliad ar waith.

### Lefelau uchel o foddhad gyda'r BBC

Rydym yn gwybod bod pobl yn gwerthfawrogi cynnwys y BBC. Eleni dywedodd 80% o bobl y byddent yn gweld eisiau'r BBC pe na fyddai yno, ac roedd ein rhaglenni a'n gwasanaethau yn parhau i gyrraedd 97% o oedolion y DU. Mae hyn yn deyrnged i sgiliau'r rheini sy'n rhan o'r gwaith.

### Sicrhau gwerth am arian

Er gwaethaf y poblogrwydd hwn, rydym yn gwybod nad yw'r sefydliad ei hun mor boblogaidd. Un pryder yw gwerth am arian. O dan arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, mae'r BBC wedi gwneud cynnydd da o ran arbedion eleni, er enghraifft drwy leihau cyflog uwch reolwyr, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd yn fy marn i. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld un o arolygon yr Ymddiriedolaeth yn dangos y gwaith a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ar gael gwerth o gyfresi drama parhaus yn dwyn ffrwyth.

### Cynnwys nodedig o safon

Ar wahân i arbedion, beth yw ystyr gwirioneddol gwerth am arian? Yn bennaf, mae pobl am weld eu harian yn cael ei wario ar raglenni da. I'r BBC, mae hyn yn golygu cynnig gwasanaeth unigryw o'r radd flaenaf. Gyda phoblogaeth o dros 60 miliwn yn y DU, mae amrywiaeth eang o ran chwaeth a disgwyliadau yn anochel; mae'n rhaid i wasanaethau'r BBC fodloni disgwyliadau pawb a bod yn nodedig.

Roedd arolygon gwasanaeth teledu'r Ymddiriedolaeth (BBC One, BBC Two a BBC Four) eleni yn dangos cynnydd da o ran yr ymdrech i wneud yr arlwy'n fwy nodedig. Roedd *The Crimson Petal and the White* a rhaglen *Horizon* ar y daeargryn yn Japan ar BBC Two, a *Sherlock* ar BBC One ymysg fy ffefrynnau.

Roedd arolygon yr Ymddiriedolaeth o BBC Radio 3 a BBC Radio 4 yn dangos bod y gorsafoedd hyn yn cynnig rhywbeth hollol unigryw - i mi, mae hyn yn cynnwys y cyngherddau a ddarlledir ar BBC Radio 3 bob nos a rhaglen Today BBC Radio 4, sy'n llwyddo i swnio'n ffres bob diwrnod. Mae'r Ymddiriedolaeth yn herio'r Bwrdd Gweithredol i gyrraedd mwy o wrandawyr, ond heb golli dim o'r natur nodedig sy'n gwneud y gorsafoedd hyn yn uchel eu bri.

### Mynediad yn yr oes ddigidol

Mae gan y BBC ddyletswydd i gyflwyno manteision yr oes ddigidol i bob un o dalwyr ffi'r drwydded a, gan fod cymaint o lwyfannau eraill ar gael, mae'n rhaid iddo aros ar flaen y gad ym maes technoleg gan aros o fewn ei gyllideb. Eleni gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gymeradwyo BBC One HD, cyfraniad at YouView (teledu ar y rhyngrwyd), ac Apps ffonau symudol ar gyfer y newyddion a chwaraeon.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i Syr Michael. Fel Cadeirydd cyntaf yr Ymddiriedolaeth, roedd ganddo'r dasg heriol o arwain cyfnod newydd o ran trefniadau llywodraethu'r BBC. Ar ran y BBC, hoffwn ddiolch iddo am ein rhoi mewn sefyllfa gadarn i fynd i'r afael â'r heriau i ddod.



**Yr Arglwydd Patten o Barnes**
**Cadeirydd**

# Crynodeb o'r flwyddyn: gwneud i ffi'r drwydded weithio'n galetach

Diben Ymddiriedolaeth y BBC yw sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Golyga hyn bennu gweledigaeth glir ar gyfer y BBC a sicrhau ei fod yn darparu'r hyn y mae'r cyhoedd ei eisiau. Dyma sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio er budd talwyr ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn.

2010/11

### Mai 2010
**Cynnydd o ran manylder uwch**
Fersiwn manylder uwch o BBC One wedi'i gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth. O ganlyniad mae'n bosibl i sianel BBC HD benodedig ddarlledu 12 awr y dydd nawr yn lle naw awr.

### Mehefin 2010
**Cymeradwyaeth i deledu rhyngrwyd**
Ar ôl ymgynghori'n helaeth, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gyfraniad y BBC at deledu rhyngrwyd (YouView), a fydd yn galluogi gwylwyr i wylio rhaglenni ar alw ar eu setiau teledu.

1


2


3


### Gorffennaf 2010
***Rhoi Ansawdd yn Gyntaf***
Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gasgliadau cychwynnol ar strategaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfeiriad y BBC yn y dyfodol, a oedd yn nodi nad oedd achos wedi'i gyflwyno mewn perthynas â chau BBC 6Music.

**Apps ffonau symudol yn cael eu cymeradwyo**
Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad y gellir rhoi rhaglenni (Apps) y BBC ar gyfer ffonau smart ar waith. Nododd yr Ymddiriedolaeth y bydd cynulleidfaoedd yn gynyddol yn disgwyl gallu cael gafael ar gynnwys y BBC fel hyn.

### Awst 2010
**Hybu cyfleoedd ar gyfer gorsafoedd radio annibynnol**
Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol ddyblu nifer comisiynau'r BBC sydd ar gael i'r sector radio annibynnol yn dilyn arolwg o gyflenwadau yn y farchnad.

### Medi 2010
**Mwy o dryloywder i gyllid y BBC**
Cytunodd yr Ymddiriedolaeth i ymestyn y gydberthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), fel y gall yr NAO benderfynu pa feysydd o weithrediadau'r BBC i'w hadolygu.

1 Apps ffonau smart – ffordd newydd o gael gafael ar gynnwys y BBC.
2 Mae *Horrible Histories*, un o ffefrynnau'r plant, yn cael ei chynhyrchu mewn HD.
3 Rotha Johnston, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth.
4 Roedd *An Education*, gan BBC Films, ar gael ar alw ar BBC iPlayer.
5 Tosca ar *Live from the Met* ar BBC Radio 3.
6 Cynulleidfa fyw ar gyfer *Young Person's Question Time*.

### Hydref 2010
**Setliad ffi'r drwydded yn dod â sefydlogrwydd**
Yn dilyn cynnig yr Ymddiriedolaeth i'r Llywodraeth rewi ffi'r drwydded hyd at 2013, cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar setliad newydd ar gyfer ffi'r drwydded am chwe blynedd, gan gymryd cyfrifoldeb am ariannu BBC World Service o 2014 a chyfrannu at ariannu S4C.

### Tachwedd 2010
**Trefniadau rhaglennu mwy unigryw**
Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i BBC One sicrhau y darperir arlwy mwy unigryw yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig yn dilyn arolygon gwasanaeth o BBC One, BBC Two a BBC Four a nododd fod hyn yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd.

### Rhagfyr 2010
***Rhoi Ansawdd yn Gyntaf***
Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth strategaeth newydd i lywio'r BBC wrth i'r sefydliad baratoi ar gyfer setliad newydd ffi'r drwydded.

**Gwasanaethu pob cynulleidfa**
Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gynnig y Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod gwasanaeth Gaeleg y BBC, sef BBC ALBA, ar gael ar Freeview.



4


5


6

### Ionawr 2011
**Sicrhau bod cynnwys ar alw ar gael i fwy o bobl**
Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth gasgliadau dros dro yr arolwg syndicetio, yn edrych ar sut y gellir sicrhau bod rhaglenni'r BBC ar gael ar lwyfannau gwahanol. Daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad dros dro y dylid syndicetio cynnwys ar alw'r BBC i weithredwyr eraill drwy BBC iPlayer, nid fesul rhaglen, a chynhaliodd ymgynghoriad ar hyn. Mae'r arolwg yn mynd rhagddo.

### Chwefror 2011
**Mae gwasanaethau gwych yn haeddu cynulleidfaoedd ehangach**
Daeth arolwg gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad fod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cynnwys nodedig BBC Radio 3 a BBC Radio 4 sydd o ansawdd uchel, a chymeradwyodd gynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i ehangu apêl craidd y ddwy orsaf.

**Diffinio rôl fyd-eang y BBC**
Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth strategaeth fyd-eang newydd ar gyfer y BBC yn nodi sut y dylai'r sefydliad fod yn dwyn y DU i'r byd a'r byd i'r DU, ynghyd â sicrhau gwerth ariannol o raglenni a werthir dramor.

### Mawrth 2011
**Prosesau gwell ar gyfer sicrhau hawliau chwaraeon**
Daeth adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn dilyn apêl yn ymwneud â masnachu teg a phenderfyniad ynghylch hawliau chwaraeon yn 2009 i'r casgliad fod prosesau'r BBC ar gyfer rheoli hawliau chwaraeon wedi gwella a'u bod yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded yn dda.

### Drwy gydol y flwyddyn
**Lleihau bil cyflogau uwch reolwyr**
Yn dilyn her yr Ymddiriedolaeth, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi parhau i leihau bil cyflogau uwch reolwyr, ac mae ar y trywydd cywir i sicrhau gostyngiad o 25% erbyn mis Rhagfyr 2011. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i gynigion Bwrdd Gweithredol y BBC gwtogi ar gyflogau uwch reolwyr ymhellach.

Gellir dod o hyd i gynllun gwaith llawn Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod yn **www.bbc.co.uk/bbctrust/about/how_we_operate/workplan/index.shtml**

**2011/12**

# Barn ar ôl mis yn y swydd

"Mae bod yn gysylltiedig â sefydliad darlledu gorau'r byd yn anrhydedd. Pe na bai'r BBC eisoes yn bodoli, ni fyddai unrhyw un yn ddigon doeth i'w greu yn fy marn i. Ond mae manteision darlledu cyhoeddus yn gryfach nag erioed yn yr oes ddigidol, o ystyried y llu o sianelau dosbarthu sydd ar gael heddiw."

Yr Arglwydd Patten o Barnes, Cadeirydd

## Gwasanaeth i ddinasyddion

Yn ogystal â chynhyrchu rhaglenni gwych mae'r BBC yn cyflawni swyddogaeth sylfaenol o ddarparu newyddion cywir, cynhwysfawr, annibynnol a diduedd. Mae'n cynhyrchu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn rhai sectorau - darlledu i blant, er enghraifft - na fyddai'n cael eu darparu fel arall. Mae'n rhan annatod o'n diwylliant cenedlaethol a hefyd yn cyfrannu at ein hymdeimlad o werthoedd a dyneiddiaeth ddinesig. Mae'n werth nodi bod llawer mwy o bobl wedi gwylio'r Briodas Frenhinol ar y BBC na sianelau eraill - bwlch sydd wedi lledu ers priodas rhieni'r priodfab 30 mlynedd yn ôl. Mae'r penderfyniad i droi at y BBC yn gyntaf ar gyfer digwyddiad cenedlaethol mawr wedi dod hyd yn oed yn gliriach.

Yn fy marn i, golyga hyn fod pobl yn uniaethu â'r BBC ac yn parchu ei raglenni'n fawr, ond rydym yn gwybod eu bod am gael mwy o sicrwydd ynghylch y dyfodol a sut y caiff y sefydliad ei lywodraethu. Nid yw'r ffaith bod y BBC yn sefydliad gwych yn golygu ei fod yn berffaith, ac mae'n wynebu heriau technolegol ac ariannol ar hyn o bryd.

O ran y pwynt cyntaf, nid oes unrhyw un yn gwybod yr effaith a gaiff technoleg ar batrymau gwrando a gwylio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond mae'r BBC mewn sefyllfa cystal ag unrhyw un i ymdopi, ac mae'r ffaith y gellir dweud hyn am gorff gwasanaeth cyhoeddus yn rhyfeddol. Mae hyn yn deyrnged i fuddsoddiad y sefydliad mewn technoleg arloesol.

## Cynnal ansawdd

O ran yr ail bwynt, mae'n rhaid sicrhau bod y BBC yn gallu fforddio'r hyn y mae'n ei wneud, fel pob sefydliad arall yn y wlad. Ar hyn o bryd mae'r BBC yn gwario mwy na'r hyn y gall y gyllideb dalu amdano. O ystyried setliad newydd ffi'r drwydded, bydd yn rhaid i'r BBC wneud llai, ond rwy'n benderfynol o sicrhau na fydd ansawdd y rhaglenni'n dirywio o ganlyniad i hyn. Yn aml iawn, wrth ymdrin ag adnoddau prin mae sefydliadau'n sôn am flaenoriaethau, ond yn ymarferol maent yn gwneud toriadau tameidiog ac yn ceisio rhoi'r flaenoriaeth i bopeth. Ni allwn leihau'n raddol yn y BBC heb beryglu ansawdd mewn meysydd sy'n bwysig i ni.

Yr her i ni dros y flwyddyn nesaf yw nodi a gwneud cynnydd tuag at gyflawni gweledigaeth ar gyfer sefydliad sydd am gynnal ansawdd gan aros o fewn cyllideb benodol sydd â gofynion newydd arni. Felly, gyda'n gilydd, bydd yn rhaid i ni wneud rhai dewisiadau anodd a chadw atynt, gan ystyried yr amcanion cyffredinol o barhau i gynhyrchu rhaglenni o'r radd flaenaf a sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU.

## Gwella rôl strategol yr Ymddiriedolaeth

A beth am rôl yr Ymddiriedolaeth? Hyd yma, mae wedi gwneud tasg anodd yn arbennig o dda yn fy marn i. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gydberthynas gref â thalwyr ffi'r drwydded ac mae wedi sefydlu ei hun fel corff llywodraethu strategol y BBC. Yn y dyfodol, credaf y dylem wella'r rôl strategol hon. Rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi gormod o bwysau ar y BBC o ran cydymffurfio; rhaid i ni symleiddio a sicrhau bod y ffordd rydym yn delio â chwynion yn fwy agored; a rhaid i ni sicrhau bod ein cydberthnasau â'r Bwrdd Gweithredol, Ofcom a'r sector darlledu ehangach mor effeithiol â phosibl. Drwy wneud y newidiadau hyn, byddwn yn helpu'r BBC i fodloni disgwyliadau uchel talwyr ffi'r drwydded.

# PERFFORMIAD Y BBC



Mae monitro perfformiad y BBC yn rôl allweddol i'r Ymddiriedolaeth. Gwnawn hyn mewn sawl ffordd. Rydym yn asesu pa mor dda y mae'n cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus a nodwyd yn y Siarter Frenhinol a'r ffordd y mae'n perfformio yn erbyn amcanion strategol. Rydym yn monitro perfformiad y 28 o wasanaethau - teledu, radio ac ar-lein - ynghyd â safonau golygyddol y BBC. Rydym yn craffu ar gyllid a gwerth am arian a chydymffurfiaeth â masnachu teg.

*Baking Made Easy*, a gyflwynwyd gan Lorraine Pascale ar BBC Two.

# Perfformiad yn erbyn amcanion strategol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gosod y strategaeth i'r BBC. Bu perfformiad eleni yn dda iawn. Rydym wedi gweld cynnydd o ran gwella natur nodedig rhaglenni'r BBC ond credwn fod rhagor i'w wneud mewn rhai rhannau allweddol o'r amserlenni teledu.

### 1. Dylai'r BBC gynyddu natur nodedig ac ansawdd ei allbwn.

Mae llawer o allbwn y BBC o safon uchel iawn ond credwn o hyd y gall y BBC wneud rhagor i wneud ei wasanaethau mwyaf poblogaidd yn fwy nodedig.
(Ffigurau 2009/10 yw'r ffigurau mewn cromfachau)

- cododd y sgôr gyfartalog allan o 10 i'r BBC am fod 'o safon dda' i 6.8 (6.4)[1]
- cynyddodd cyfran y rhai sy'n cytuno'n gryf bod y BBC o safon uchel i 42% (36%)[1]
- parhaodd y mynegai gwerthfawrogi cyfartalog ar gyfer rhaglenni teledu'r BBC yn 82 (82)[2]
- cynyddodd y mynegai gwerthfawrogi cyfartalog ar gyfer rhaglenni radio'r BBC ychydig i 80 (79)[2]
- y mynegai gwerthfawrogi cyfartalog ar gyfer gwefannau BBC Ar-lein oedd 80 (81)[2]
- bu'r gyfran a gytunodd yn gryf fod rhaglenni teledu'r BBC yn 'wreiddiol ac yn wahanol' yn sefydlog sef 36% (37%)[2]

Parhaodd canfyddiadau o ansawdd a gwerthfawrogiad o allbwn y BBC yn uchel, a chanmolwn y Bwrdd Gweithredol am hyn. Gwelsom rywfaint o gynnydd calonogol hefyd fod y BBC yn dod yn fwy uchelgeisiol a nodedig yn greadigol ym maes radio a theledu, ond credwn fod modd gwneud rhagor ar y prif wasanaethau teledu a radio.

Natur nodedig yw'r dystiolaeth bod y BBC yn defnyddio braint arian ffi'r drwydded i fentro'n greadigol a dangos uchelgais olygyddol drwy ei allbwn cyfan. Erys natur nodedig yn brif ffocws i'r Ymddiriedolaeth eleni.

### 2. Dylai'r BBC gynnal y cyrhaeddiad mwyaf posibl sy'n gyson â'i bwrpasau a'i werthoedd.

Mae cyrhaeddiad y BBC wedi parhau'n 97%, dipyn yn uwch na'r targed o 90%.
(Ffigurau 2009/10 yw'r ffigurau mewn cromfachau)

- y cyrhaeddiad wythnosol o ran pob un o wasanaethau'r BBC yn 2009/10 oedd 97% (97%)[3]

Parhaodd y BBC i berfformio'n dda iawn o ran cyrraedd pobl drwy ei wasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Mae hyn i'w ganmol, o ystyried nifer y cyfryngau amgen sydd ar gael yn y DU, ac mae'n dyst i allu'r BBC i greu allbwn gwerthfawr ar gyfer pob cynulleidfa.

### 3. Dylai'r BBC barhau â'r canfyddiad o werth ymhlith cymeradwywyr uchel a dylai gynyddu'r canfyddiad o werth ymhlith cymeradwywyr canolig ac isel.

Gwelwn rywfaint o welliant eto yng nghymeradwyaeth cynulleidfaoedd.
(Ffigurau 2009/10 yw'r ffigurau mewn cromfachau)

- cynyddodd cyfran y rhai sy'n 'gymeradwywyr uchel' y BBC i 42% (38%)[1]
- gostyngodd cyfran y rhai 'sy'n gymeradwywyr isel' y BBC i 10% (12%)[1]

Mae cynulleidfaoedd yn parhau i amrywio o ran lefel eu cymeradwyaeth o'r BBC gyda lleiafrif yn dangos llai o gymeradwyaeth, er gwaethaf y ffaith eu bod yn troi at allbwn y BBC yn rheolaidd. Yn y dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar y ffordd y gall y BBC wasanaethu pob cynulleidfa mewn amryw ffyrdd.

### 4. Dylai'r BBC adfer ymddiriedaeth yn ei allbwn.

Twf pellach mewn ymddiriedaeth eleni.
(Ffigurau 2009/10 yw'r ffigurau mewn cromfachau)

- cynyddodd y sgôr gyfartalog allan o 10 am 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC' i 6.4% (6.0)[1]
- cynyddodd y gyfran a gytunodd yn gryf â'r gosodiad 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC' i 37% (31%)[1]

Pennwyd yr amcan hwn yn 2007 mewn ymateb i gyfres o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â chystadlaethau rhaglenni a rhai diffygion golygyddol. Parhawn i drin achosion o dorri canllawiau golygyddol y BBC o ddifrif, ond fe'n calonogir gan y lefel gyfredol o ymddiriedaeth yn y sefydliad. Cyflwynwn adroddiad ar ein gwaith i gynnal safonau golygyddol ar dudalennau 1-15 i 1-16.

1 Mae newyddion a dadansoddiadau manwl lleol, cenedlaethol a rhyngwladol oll yn rhan o'r hyn a gynigia'r BBC.
2 Dilynodd *Junior Doctors* hynt meddygon newydd eu cymhwyso wrth iddynt ddechrau gweithio ar wardiau ysbyty.





### 5. Dylai'r BBC wneud mwy o waith o ran cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus.

Sicrhau mwy o uchelgais greadigol a golygyddol a sicrhau bod y BBC yn cynnig rhywbeth o werth i bob cynulleidfa ledled y DU ddylai fod yn brif nodau strategol y Bwrdd Gweithredol. Felly maent yn ganolog i'r strategaeth newydd.

Mae'n ofynnol i'r BBC hyrwyddo amrywiaeth eang o flaenoriaethau fel rhan o chwe phwrpas cyhoeddus. Mae ei berfformiad yn gadarn ar y cyfan, er bod disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC bob amser yn uchel iawn ac nid yw bob amser yn eu bodloni.

Rydym yn asesu sut mae'r BBC wedi cyflawni ei chwe phwrpas cyhoeddus ar dudalennau 1-8 i 1-9. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r meysydd lle nad yw perfformiad yn bodloni disgwyliadau.

### 6. Dylai'r BBC gyflawni targedau effeithlonrwydd cronnol o 3% dros bum mlynedd.

Gwnaed arbedion effeithlonrwydd newydd gwerth £434miliwn eleni (yn glir o gostau). Ymddengys bod y BBC ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed hwn, gydag arbedion cronnol o £903miliwn (yn glir o gostau) yn ystod y tair blynedd gyntaf o'r cyfnod o bum mlynedd.

Dair blynedd yn ôl gosodwyd her effeithlonrwydd i'r BBC i sicrhau bron £2biliwn o arbedion, heb effeithio ar ansawdd gwasanaethau, dros bum mlynedd hyd at fis Mawrth 2013.

Mae archwilwyr allanol y BBC, KPMG, yn rhoi sicrwydd bob blwyddyn ynglŷn â gwerth yr arbedion ariannol a ddatganwyd. Rydym hefyd yn asesu a yw'r BBC wedi cynnal ansawdd gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd ar yr un pryd. Nid yw ein hadolygiadau o wasanaethau na'n mesurau perfformiad yn achos pryder i ni yn hyn o beth.

Rydym wedi gofyn i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol adolygu'r rhaglen effeithlonrwydd i weld pa mor dda y caiff ei rheoli a thynnu sylw at unrhyw wersi wrth i ni ystyried targedau effeithlonrwydd ar gyfer y dyfodol.

### Fframwaith strategol newydd ar gyfer *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*

Pan gymeradwywyd y strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* gennym ym mis Rhagfyr, pennwyd pedwar amcan i'r BBC. Mae'r rhain yn disodli'r chwe amcan a nodwyd uchod. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn erbyn yr amcanion newydd mewn Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

| Amcan | Sut y byddwn yn mesur cynnydd |
|---|---|
| 1. Cynyddu natur nodedig ac ansawdd ei allbwn | • sgorau mynegai gwerthfawrogi cyfartalog<br>• canfyddiadau cynulleidfaoedd o 'gwreiddiol a gwahanol' |
| 2. Gwella'r gwerth am arian y mae'n ei ddarparu i dalwyr ffi'r drwydded | • rhagweld effeithlonrwydd (%) ar sail blwyddyn<br>• newid yn nifer yr uwch reolwyr (%)<br>• newid ym mil cyflog uwch reolwyr (%)<br>• gorbenion fel % o wariant<br>• canfyddiadau cynulleidfaoedd o werth am arian |
| 3. Gosod safonau newydd mewn perthynas â bod yn agored a thryloyw | • cyhoeddi cynllun gwaith a chyllideb flynyddol; bil cyflog blynyddol uwch reolwyr; costau blynyddol talent mewn bandiau y cytunwyd arnynt; adroddiadau chwarterol ar dreuliau<br>• cynnal sesiynau briffio i'r diwydiant ddwywaith y flwyddyn<br>Anelwn at olrhain canfyddiadau cynulleidfaoedd o natur agored a thryloyw'r BBC |
| 4. Gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa | • cyrhaeddiad cynulleidfaoedd i'r BBC<br>• mynediad at wasanaethau'r BBC<br>• allbwn teledu rhwydwaith (% a gynhyrchwyd y tu allan i Lundain)<br>• canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r ffordd y cynrychiolir y gwledydd a'r rhanbarthau |

[1] Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain i'r BBC cyfan (PBTS) Ebrill-Hydref 2010 ynghyd ag Olrhain Brand ac Enw Da (BaRT) Tachwedd 2010 hyd at fis Mawrth 2011. Ail-lansiwyd arolwg PBTS fel arolwg BaRT ym mis Tachwedd 2010 gan ddefnyddio'r un fethodoleg ond holiadur a chynllun pwysoli wedi'u diweddaru.

[2] Ffynhonnell: arolwg BBC Pulse.

[3] Ffynhonnell: arolwg 'Cross Media Insight' y BBC.

# Pwrpasau

## Mae pobl yn disgwyl pethau mawr gan y BBC. Yn gyffredinol eleni, parhaodd y BBC i gyflawni'r rhan fwyaf o'i bwrpasau cyhoeddus yn dda, ac yn unol â disgwyliadau cynulleidfaoedd neu'n well na hynny. Fodd bynnag, erys rhai meysydd i'w gwella, yn enwedig o ran y diwylliant a chreadigrwydd, a'r pwrpasau sy'n ymwneud â'r gwledydd, y rhanbarthau a chymunedau.

Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a difyrru. O dan delerau'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb, drwy ei allbwn, rhaid i'r BBC hyrwyddo'r chwe phwrpas cyhoeddus a ddisgrifir ar y ddwy dudalen hyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur perfformiad y BBC yn erbyn pob un o'r pwrpasau gan ddefnyddio sawl ffynhonnell o wybodaeth. Rydym yn cynnal arolwg o'r gynulleidfa bob blwyddyn, lle gofynnwn pa mor bwysig yw pwrpasau cyhoeddus y BBC, a pha mor dda y mae'r BBC yn ei wneud o ran pob pwrpas ym marn cynulleidfaoedd. Drwy gymharu'r sgorau hyn gallwn weld ble mae'r BBC yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd a ble y ceir bylchau. Rydym hefyd yn defnyddio canfyddiadau ein gweithgareddau eraill megis arolygon o wasanaethau, a gwaith ymchwil perthnasol arall a wnaed gan Uned yr Ymddiriedolaeth, y Bwrdd Gweithredol a'n Cynghorau Cynulleidfa.




Mae'r BBC yn cynnig agenda newyddion, gwleidyddiaeth a materion cyfoes eang.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd

**Mae'r pwrpas hwn o bwys creiddiol. Mae disgwyliadau mawr cynulleidfaoedd o ran newyddion a materion cyfoes yn cael eu bodloni ar y cyfan.** Dangosodd ein harolygon eleni fod BBC One a BBC Two yn gwneud cyfraniadau pwysig iawn i safbwyntiau cynulleidfaoedd ynglŷn â newyddion a materion cyfredol, tra bo allbwn newyddion BBC Radio 4 yn bodloni disgwyliadau ac weithiau'n rhagori arnynt. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd da a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol o ran adroddiadau ar faterion a pholisïau llywodraeth a sefydliadau datganoledig a nodwyd gennym y llynedd, dangosodd ein harolwg fod cynulleidfaoedd yn credu o hyd y gallai'r BBC wneud rhagor, yn enwedig yn yr Alban. Rydym wedi cael trafodaethau adeiladol gyda'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn ag ymateb i'r her hon.



Roedd y sylw i'r 70ain mlwyddiant o Frwydr Prydain yn cynnwys *Dig 1940* gyda'r archeolegydd Jules Hudson.

### Hyrwyddo addysg a dysgu

**Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd yn uwch o'u cymharu â disgwyliadau ynglŷn â'r pwrpasau eraill, a chawsant eu bodloni ar y cyfan eleni.** Fodd bynnag, fel mewn blynyddoedd blaenorol, teimlai rhieni a oedd â phlant o dan 18 oed y gallai'r BBC wneud rhagor. Mae darpariaeth ddysgu ffurfiol y BBC bellach ar-lein yn bennaf, ac mae'r defnydd a wneir ohoni a'r farn ynglŷn ag ansawdd yn parhau'n uchel. Mae gan y BBC ymrwymiad hefyd i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd drwy ymgyrchoedd penodol neu apeliadau elusen gyda'r nod o fod o fudd i gymdeithas, ac mae'n cynnal amrywiaeth eang o'r rhain bob blwyddyn. Canfu ein harolwg o wasanaeth BBC Radio 4, a oedd yn ymdrin â'r meysydd hyn, fod yr orsaf yn cefnogi ymgyrchoedd cymdeithasol ac addysgol yn effeithiol, gan ddefnyddio partneriaethau i wella effaith allbwn addysgol.



Comedi arobryn BBC Two *Miranda*.

## Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

**Mae angen i'r BBC gynnig rhaglenni mwy nodedig a chreadigol, gan fod methiant o hyd i fodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd.** Dengys ein gwaith fod y bwlch mwyaf rhwng disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC a'i berfformiad yn ymwneud â natur nodedig rhaglenni a bod hyn yn cael ei ysgogi ar y cyfan gan ganfyddiadau o BBC One a BBC Two. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, mae'r BBC yn perfformio'n dda. Er enghraifft, cred gwylwyr fod BBC Four yn aml yn cynnig rhywbeth gwreiddiol a gwahanol i sianelau eraill, a dangosodd ein harolwg o BBC Radio 3 fod yr orsaf yn gwneud cyfraniad pwysig i bwrpas diwylliannol a chreadigol y BBC.




Oyster Cafe yn Shieldinch – cartref ffuglennol opera sebon BBC Scotland *River City*.

## Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

**Parhaodd cynulleidfaoedd i deimlo bod gwendidau yn y ffordd y mae'r BBC yn cynrychioli'r gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau yn ei allbwn.** Roedd hyn yn arbennig o wir am yr Alban a Gogledd Iwerddon, er gwaethaf y cynnydd da a wnaed mewn rhai meysydd megis newyddion. Eleni byddwn yn gorffen ein harolwg o wasanaethau radio gwledydd y BBC, lle rydym yn ystyried sut maent yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y gwledydd datganoledig. Mae gan y BBC fentrau pwysig gyda'r nod o fynd i'r afael â materion o ran cynrychiolaeth genedlaethol a lleol. Rydym yn ffyddiog y bydd y rhain yn arwain at ganlyniad cadarnhaol dros amser.



Gweithiodd *This World* BBC Two mewn ffordd sensitif gyda'r glowyr a achubwyd yn Chile a'u teuluoedd i ddod â dimensiwn newydd i'r stori honno.

## Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

**Roedd cynulleidfaoedd yn canmol y BBC yn fawr am gyflwyno'r byd i'r DU, a pharhaodd lefel cyrhaeddiad byd-eang y BBC yn uchel.** Mae BBC One a BBC Two yn arbennig o bwysig i safbwyntiau cynulleidfaoedd yn hyn o beth; yn sgîl ein harolwg o BBC Two, ymrwymodd y sianel o'r newydd i faterion cyfoes rhyngwladol o safon dda. Mae'r BBC yn darparu gwasanaethau newyddion rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled y byd drwy BBC World Service, a hefyd drwy'r sianel cyfrwng Saesneg a ariennir yn fasnachol, BBC World News. Amcangyfrifwyd bod y rhain gyda'i gilydd wedi cyrraedd tua 225 miliwn yn 2010/11.




Mae Radioplayer yn dod â radio'r BBC a radio masnachol ynghyd mewn un man.

## Helpu i fanteisio ar dechnolegau cyfathrebu a gwasanaethau newydd

**Llwyddodd y BBC i fodloni disgwyliadau o ran ei ymrwymiad i sicrhau bod cynnwys digidol diddorol ar gael i gynulleidfaoedd.** Eleni lansiwyd BBC One HD gan y BBC, a bu'n bartner yn lansiad Radioplayer. Cyflawnwyd targedau ar gyfer newid i ddigidol. Parhaodd y rhwydwaith radio DAB cenedlaethol i ehangu, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd 92% o wrandawyr erbyn canol 2011.

# Perfformiad gwasanaeth

Un o'n prif ddyletswyddau yw asesu perfformiad gwasanaethau'r BBC. Eleni, perfformiodd y BBC yn dda gan gyrraedd bron bob talwr ffi'r drwydded â chynnwys o safon dda. Gwnaed cynnydd gan y sianelau teledu o ran dod yn fwy nodedig a phortreadu pob cynulleidfa yn fwy effeithiol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae mwy o le i wella o hyd yn ein barn ni.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am berfformiad y BBC drwy arolygon o wasanaethau. Yma rydym yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad y BBC eleni ym meysydd:

- teledu
- radio
- ar-lein
- newyddion
- chwaraeon
- BBC World Service

## Teledu

Roeddem yn falch o nodi bod y sgorau ansawdd cyfartalog wedi cynyddu eleni, ond mae'r sgorau ar gyfer y rhan fwyaf o sianelau nad ydynt yn rhai'r BBC wedi cynyddu hefyd. Awgryma hyn fod y gwelliant, fel y llynedd, yn parhau i gael ei sbarduno gan nifer o ffactorau ac nid dim ond y rhaglenni eu hunain, gan gynnwys mwy o ddewis o raglenni a mwy o ddefnydd o gyfarpar teledu o ansawdd uchel gan gynnwys dyfeisiau recordio a newid amser.

Eleni cwblhawyd ein harolygon o BBC One, BBC Two a BBC Four.

### BBC One

BBC One yw sianel fwyaf poblogaidd y BBC o hyd o bell ffordd, o ran nifer y cynulleidfaoedd a'r sgorau cymeradwyaeth. Yn 2010/11 cynyddodd oriau gwylio wythnosol cyfartalog bron 7 awr 30 munud fesul unigolyn, ac arhosodd sgôr mynegai gwerthfawrogi gyfartalog y sianel yn sefydlog sef 81.

Daeth ein harolwg o wasanaeth i'r casgliad y gallai BBC One harneisio ei maint a'i phoblogrwydd i fod yn fwy uchelgeisiol a chymryd mwy o risgiau creadigol. Yn benodol, canfu y dylai BBC One geisio cynyddu amrywiaeth rhaglenni yn ystod amser brig cyn y trothwy gwylio, a dangos mwy o uchelgais am 9pm, yn enwedig drwy ymestyn amrywiaeth ac uchelgais greadigol ei dramâu. Byddwn yn ystyried cynnydd yn y meysydd hyn gyda Rheolwr newydd BBC One yn ystod 2011/12.

### BBC Two

Perfformiodd BBC Two yn dda o ran dangos uchelgais a chymryd risgiau creadigol, yn enwedig mewn rhaglenni ffeithiol, comedi a drama newydd. Fe'n calonogir gan berfformiad y sianel o ran drama uchelgeisiol ac rydym yn cefnogi ei huchelgeisiau. Credwn nad yw BBC Two yn cael clod dyladwy eto gan gynulleidfaoedd am ei chynnwys mwy uchelgeisiol, ond teimlwn y daw hyn dros amser os yw'n cynnig rhaglenni nodedig yn gyson. Fel y nodwyd yn ein harolwg o wasanaeth, credwn fod gan BBC Two ran allweddol i'w chwarae o ran canfyddiadau cynulleidfaoedd o natur nodedig rhaglenni teledu'r BBC. Byddwn hefyd yn olrhain effaith materion cyfoes y BBC er mwyn cael sicrwydd bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith o ran darlledu cyhoeddus yn y maes hwn.

### Yn ystod y dydd ar BBC One a BBC Two

Canfu ein harolwg o wasanaeth nad oedd ansawdd nac uchelgais rhannau o'r amserlen yn ystod y dydd ar BBC One a BBC Two yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd a chredwn y gallai'r ddwy sianel wneud rhagor i gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus. Mae'r cynnydd o ran ymateb i'r her hon yn galonogol; er enghraifft mae'r ddwy sianel yn dechrau dangos mathau newydd o raglennu megis hanes cymdeithasol.

### BBC Three

Mae BBC Three bellach yn cyrraedd bron 30% o'i chynulleidfa darged o bobl 16-34 oed bob wythnos ac mae mesurau ansawdd yn gadarnhaol. Yn benodol roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi rhai rhaglenni ffeithiol a ymdriniodd â materion cyfoes rhyngwladol a chymdeithasol heriol. Rôl BBC Three yw cymryd risgiau creadigol ac arloesi ym mhob math o genre.

### BBC Four

Perfformiodd y sianel yn dda eleni. Parhaodd y cyrhaeddiad i gynyddu ac mae bellach yn cyrraedd 10% bob wythnos; mae'r Gost fesul Defnyddiwr yr Awr wedi gostwng; ac mae BBC Four wedi cael y sgôr mynegai gwerthfawrogi gyfartalog orau o blith sianelau'r BBC. Yr her allweddol yw sicrhau bod y sianel yn cael mwy o effaith, nid yn unig ymhlith ei gwylwyr, ond hefyd y cyhoedd o ran yr allbwn nodedig o safon uchel a ddarperir ganddi.

1


2


## Plant (CBBC, CBeebies)

Mae ar y BBC gyfrifoldeb arbennig i gynnig rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol i blant y DU, gan fod y buddsoddiad mewn rhaglennu yn y DU gan lawer o sianelau eraill ar gyfer plant yn fach iawn.

Parhaodd CBeebies i berfformio'n arbennig o dda, o ran cyrhaeddiad a chanfyddiadau o ansawdd. Hon yw'r sianel fwyaf poblogaidd o hyd i blant ymhlith plant chwech oed neu'n iau ac mae eu rhieni yn ymddiried ynddi'n fawr iawn.

Cafodd CBBC flwyddyn gadarn hefyd. Mewn cartrefi sydd â gwasanaethau cebl a lloeren, lle mae CBBC yn cystadlu â nifer fawr o sianelau, perfformiodd y sianel yn dda iawn a chynyddodd ei chyrhaeddiad o 21% i 28% ymhlith plant chwech i 12 oed, er ei bod dipyn ar ei hôl hi o'i chymharu â Disney Channel.

Parhaodd cyrhaeddiad cynnwys plant ar BBC One a BBC Two i ddirywio yn ystod y flwyddyn hon. Erbyn diwedd y cyfnod newid i ddigidol, bydd pawb yn cael mynediad at sianelau plant y BBC, ac er mwyn paratoi ar gyfer hyn, bydd yn bwysig asesu rôl rhaglennu plant ar BBC One a BBC Two. Byddwn yn trafod gyda'r Bwrdd Gweithredol sut y gellir sicrhau ein bod yn gweithredu er budd plant.

## BBC ALBA

Ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd ein canfyddiadau ar sianel deledu Gaeleg y BBC, BBC ALBA. Canfuwyd bod BBC ALBA yn perfformio'n dda ac fe'i gwerthfawrogir gan siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Gaeleg. Ystyriwyd hefyd sut i sicrhau bod BBC ALBA ar gael yn fwy eang. Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a ddenodd dros 5,000 o ymatebion, daethom i'r casgliad y dylai'r gwasanaeth gael ei ddarlledu ar Freeview, er bod hynny'n golygu disodli rhai gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC gyda'r hwyr. Ystyriodd yr Ymddiriedolaeth nifer o safbwyntiau cryf, a oedd yn tynnu'n groes i'w gilydd weithiau, a bu'n rhaid pwyso a mesur cyn gwneud y penderfyniad hwn.

## Radio

Mae lefelau gwrando ar y radio yn gadarn yn y DU, gyda 90% o oedolion yn gwrando bob wythnos. Ar ôl rhai blynyddoedd o ddirywio, cynyddodd oriau gwrando cyfartalog ychydig eleni ymhlith oedolion yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae pobl ifanc yn gwrando'n llai ac yn llai, ac mae'n amlwg bod y dasg o ennyn diddordeb gwrandawyr iau yn her sylweddol i orsafoedd radio'r BBC sydd wedi'u hanelu at y gynulleidfa hon. Byddwn yn ystyried ymateb y BBC i'r her hon yn ofalus dros y flwyddyn sydd i ddod.

## BBC Radio 1 a BBC 1Xtra

Cylch gwaith BBC Radio 1 yw ennyn diddordeb cynulleidfa ifanc mewn rhaglenni darlledu cyhoeddus. Mae wedi cynyddu cyrhaeddiad ei hallbwn nodedig ymhlith ei chynulleidfa darged ac ymhlith pobl iau yn eu harddegau eleni sef cyflawniad cadarnhaol o ystyried her cyrraedd y cynulleidfaoedd hyn. Fodd bynnag, parhawn i herio'r Bwrdd Gweithredol er mwyn sicrhau bod BBC Radio 1 yn canolbwyntio'n gliriach ar wrandawyr iau, yn unol â chasgliadau ein harolwg o wasanaeth yn 2009. Nid yw'r newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth ers yr arolwg wedi arwain at ddenu cynulleidfa iau ar gyfartaledd felly rydym wedi gofyn am gamau pellach i ymateb i'r her hon.

Cynyddodd BBC 1Xtra nifer y gwrandawyr i'r lefel orau erioed sef 800,000. Mae ymwybyddiaeth o'r orsaf hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ar sail cysylltiadau agosach â BBC Radio 1.

## BBC Radio 2

Yn sgîl ein harolwg o BBC Radio 2 yn 2010, gwnaethom nifer o argymhellion i sicrhau bod yr orsaf yn fwy nodedig, yn enwedig yn ystod y dydd. Mae'n dda gennym nodi bod yr orsaf wedi gweithredu'r argymhellion hyn drwy atgyfnerthu ei rhaglenni dogfen, rhaglenni comedi a rhaglenni ar y celfyddydau, yn ogystal â dangos mwy o uchelgais olygyddol yn ei hallbwn poblogaidd yn ystod y dydd. Disgwyliwn weld mwy o ddatblygiadau yn y meysydd hyn.

1 Adroddodd *The Sinking of the Laconia* hanes llong lluoedd y gynghrair, a suddodd ar ôl ymosodiad gan long danforol, a aeth ati i achub y criw sifilaidd.
2 Adroddwyd hanes Jasmine Burkitt, 16 oed, yn *Small Teen Big World*.






## BBC Radio 3 a BBC Radio 4

Canfu ein harolwg o BBC Radio 3 a BBC Radio 4 fod y gorsafoedd hyn yn perfformio'n dda iawn. Maent o safon uchel iawn ac maent yn darlledu rhaglennu nodedig. Mae'r ddwy orsaf yn wynebu'r her o apelio i amryw gynulleidfaoedd heb beryglu eu natur nodedig o gwbl.

## BBC Radio 5 Live

Cafodd BBC Radio 5 Live ei blwyddyn orau erioed gan ddenu dros saith miliwn o wrandawyr am y tro cyntaf. Byddwn yn edrych ar berfformiad BBC Radio 5 Live a'i chwaer orsaf ddigidol BBC Radio 5 Live Sports Extra yn fanylach yn yr arolwg o wasanaeth a lansiwyd ym mis Ebrill 2011.

## BBC 6Music

Ers i'r Bwrdd Gweithredol gynnig cau BBC 6Music y llynedd, mae'r cyrhaeddiad wythnosol wedi dyblu bron i dros filiwn o oedolion. Cynyddodd sgorau cymeradwyo cynulleidfaoedd hefyd. Cefnogwn rôl nodedig BBC 6Music ym mhortffolio cerddoriaeth radio'r BBC a gobeithiwn y gall gynnal y lefel hon o berfformiad.

## BBC Radio 7

Canfu ein harolwg o BBC Radio 7 fod hon yn un o'r gorsafoedd radio digidol mwyaf llwyddiannus ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr iawn gan ei gwrandawyr. Cymeradwywyd cynigion y Bwrdd Gweithredol i ail-frandio BBC Radio 7 yn BBC Radio 4 Extra oherwydd gall hyn annog mwy o wrandawyr i roi cynnig ar yr orsaf. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r elfennau y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi fwyaf, diwygiodd yr Ymddiriedolaeth drwydded BBC Radio 7 er mwyn atgyfnerthu ymrwymiad i gomedi a drama a chyfyngu ar faint o raglenni dal i fyny BBC Radio 4 sydd ar gael.

## BBC Asian Network

Yn ystod 2010/11, cynyddodd BBC Asian Network ei gyrhaeddiad i 16% o bobl Asiaidd Prydeinig ifanc. Yn 2010, awgrymodd y Bwrdd Gweithredol y dylid cau'r gwasanaeth ond erbyn hyn mae wedi rhoi'r gorau i'r syniad hwn ac mae'n ystyried dyfodol BBC Asian Network ochr yn ochr â gwasanaethau eraill y BBC fel rhan o arolwg ehangach o strategaeth y BBC. Dylai radio'r BBC geisio gwasanaethu gwrandawyr Asiaidd cystal â chynulleidfaoedd eraill.


## Radio'r gwledydd a rhanbarthau Lloegr

Mae gorsafoedd radio'r gwledydd ar y BBC yn cynnwys BBC Radio Scotland, BBC Radio Wales, BBC Radio Ulster/Foyle, yr orsaf Gymraeg BBC Radio Cymru a'r orsaf Aeleg BBC Radio nan Gàidheal. Mae'r rhain, ynghyd â Radio Lleol y BBC yn Lloegr, yn gwneud cyfraniad pwysig i gylch gwaith y BBC i wasanaethu'r gwahanol gymunedau ledled y DU.

BBC Radio Ulster/Foyle oedd gorsaf fwyaf poblogaidd Gogledd Iwerddon o hyd, ond cafodd y gorsafoedd cenedlaethol eraill a Radio Lleol y BBC yn Lloegr flwyddyn dda hefyd, gan gynyddu eu cyrhaeddiad ac mewn sawl achos faint o amser roedd gwrandawyr yn gwrando ar gyfartaledd.

Rydym wrthi'n adolygu perfformiad a strategaeth gorsafoedd radio'r gwledydd a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau'n ddiweddarach eleni. Byddwn yn lansio arolwg o Radio Lleol y BBC yn Lloegr yn ddiweddarach eleni a bydd yn ystyried effaith strategaeth rhannu cynnwys y Bwrdd Gweithredol a gafodd ei threialu eleni.

3




4



## Ar-lein

### BBC Ar-lein

Dim ond BBC One a BBC Two a ragorodd ar berfformiad BBC Ar-lein o ran cyrhaeddiad, ac fe'i defnyddiwyd gan 19.5 miliwn o oedolion bob wythnos, o gymharu â 17 miliwn yn 2009/10, sef 57% o oedolion ar-lein. Sbardunwyd y twf hwn gan berfformiad arbennig o dda ar gyfer newyddion, gyda BBC Ar-lein yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ennyn diddordeb cynulleidfaoedd mewn straeon newyddion mawr megis y tywydd eithafol, y daeargryn yn Japan a'r Etholiad Cyffredinol. Hefyd, drwy'r defnydd cynyddol o ffonau deallus a dyfeisiau tabled llwyddwyd i gynyddu cyrhaeddiad a defnydd, gyda thua 2.6 miliwn o oedolion yn eu defnyddio i gael gafael ar wasanaethau'r BBC bob wythnos.

Ceir anghysondeb o hyd o ran canfyddiadau o ansawdd ar BBC Ar-lein, a gostyngodd sgorau ansawdd cyffredinol ychydig. Bu hwn yn ymateb cychwynnol i ail-lansio rhai gwefannau pwysig, gan gynnwys yr hafan, Newyddion a BBC iPlayer. Byddwn yn parhau i fonitro canfyddiadau o ansawdd BBC Ar-lein yn fanwl.

Ym mis Ionawr 2011, cymeradwywyd strategaeth ar-lein newydd y BBC. Mae'n golygu lleihau'r gyllideb 25%, ffiniau golygyddol cliriach ynglŷn â meysydd cynnwys mwy nodedig, a ffyrdd gwell o we-lywio a chysylltu. Gyda'r strategaeth hon mae'r Bwrdd Gweithredol yn rhagweld y bydd cyrhaeddiad yn tyfu i 65% o oedolion ar-lein erbyn 2013/14, a gwerthfawrogiad defnyddwyr yn cynyddu o sgôr gyfartalog o 79 i dros 80 yn 2012/13, gyda llai o wefannau a chynhyrchion yn cofnodi sgorau gwerthfawrogi isel. Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn.

### BBC Red Button

Tyfodd cyrhaeddiad i BBC Red Button yn dda yn 2010/11. Gwellodd sgorau ansawdd a chynyddodd cyrhaeddiad ychydig. Denodd digwyddiadau mawr, megis Cwpan y Byd, Wimbledon a Glastonbury, gynulleidfaoedd mawr yn ystod yr haf.

## Newyddion

Mae Newyddion y BBC yn parhau i fod yn uchel ei pharch ymhlith cynulleidfaoedd a chofnododd rywfaint o gynnydd yng nghanfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd, y graddau y gellir ymddiried yn y gwasanaeth a chywirdeb eleni. Dros bob llwyfan, trodd 81% o oedolion at Newyddion y BBC bob wythnos.

Bu'r agenda newyddion gadarn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn fodd i raglenni a darpariaeth newyddion pwysig y BBC gynyddu eu cynulleidfaoedd. Mae'n werth nodi bod sianel BBC News a BBC Parliament wedi cyrraedd mwy o wylwyr, gyda chyrhaeddiad wythnosol yn dyblu yn ystod yr Etholiad Cyffredinol. Cynyddodd eu sgorau cymeradwyo hefyd. Rydym yn ystyried perfformiad a strategaeth BBC News a BBC Parliament yn fanylach yn ein harolwg o'r gwasanaethau hyn sy'n mynd rhagddo.

Mae gan gynulleidfaoedd barch mawr at newyddion rhanbarthol y BBC yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon ac mae canfyddiadau yn yr Alban yn gwella er eu bod yn parhau'n is. Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau i Newyddion y BBC o ran gwasanaethu cynulleidfa yn y DU gyfan drwy allbwn rhwydwaith, a hefyd ymateb i'r awydd cynyddol am newyddion am faterion datganoledig yn y gwledydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld gostyngiad graddol yng nghyrhaeddiad materion cyfoes ar y teledu. Yn ein harolwg o wasanaethau teledu daethom i'r casgliad y dylai'r BBC anelu at sicrhau bod rhaglenni materion cyfoes, yn enwedig ar BBC Two, yn cael mwy o effaith. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth o effaith gynyddol o'r fath yn y flwyddyn sydd i ddod.

1 Bu fan darlledu allanol BBC 6Music yn Glastonbury.

2 *Just a Minute*. Mae comedi yn bwysig o ran denu cynulleidfaoedd newydd i BBC Radio 4.

3 Mae gwefan BBC News yn cynnwys y newyddion diweddaraf ynghyd â dadansoddiad a sylwadaeth ar faterion y dydd.

4 Cyflwynwyr *Spotlight* y BBC, David Braine, Victoria Graham a Justin Leigh.






## Chwaraeon

Perfformiodd Chwaraeon y BBC yn dda ar bob llwyfan gyda chanfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd yn dda. Parhaodd Chwaraeon y BBC i ddenu cynulleidfaoedd mawr ar deledu, radio ac ar-lein, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau pwysig megis Cwpan y Byd, Wimbledon a Formula 1, a pharhaodd cynulleidfaoedd i gynyddu ar gyfartaledd ar gyfer *Match of the Day*, *BBC Sports Personality of the Year* a *Six Nations Rugby*. Cafodd darllediadau o'r prif ddigwyddiadau chwaraeon drwy gydol y flwyddyn eu cefnogi'n dda hefyd gan BBC Ar-lein a BBC Red Button.

Yr heriau i Chwaraeon y BBC yn y flwyddyn sydd i ddod fydd, yn gyntaf, cynnal y perfformiad da hwn pan fo llai o ddigwyddiadau chwaraeon mawr, ac yn ail dechrau ar y cyfnod rhagarweiniol cyn y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012.

## BBC World Service

Mae BBC World Service yn uchel ei barch ymhlith ei gynulleidfaoedd am ansawdd ei allbwn. Mae'n parhau i chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o gynnig newyddion a gwybodaeth ddiduedd i gynulleidfaoedd ledled y byd. Yn 2010/11 cyrhaeddodd tua 166 miliwn o bobl bob wythnos, sef lefel is na'r llynedd, am fod rhai gwasanaethau iaith wedi cael eu cau neu eu lleihau, ar ôl i'r cyllid gan y Llywodraeth gael ei dorri.

Wrth addasu at y toriad mewn cyllid anelwn at sicrhau bod BBC World Service yn cynnal ei ansawdd, ei safonau a'i effaith. Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw drwy adolygu rhannau o weithgarwch BBC World Service bob blwyddyn. Eleni edrychodd ein gwaith ymchwil ar wasanaeth teledu Persiaidd y BBC, gan ganfod bod y gwasanaeth yn llwyddo i gyrraedd miliynau o siaradwyr Farsi gyda gwasanaeth newyddion diduedd ac awdurdodol.

1 *BBC Sports Personality of the Year*, joci rasio neidio AP McCoy.
2 Darllediadau teledu Persiaidd y BBC yn Farsi i Iran, Affganistan a Tajikistan.

# Sicrhau safonau golygyddol

Mae'r cyhoedd yn disgwyl y safonau uchaf gan y BBC, a chynnal y safonau hyn yw un o gyfrifoldebau pwysicaf yr Ymddiriedolaeth. Ers mis Hydref 2010, mae'r BBC wedi bod yn gweithio yn unol â Chanllawiau Golygyddol newydd, a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth, gyda'r nod o helpu i sicrhau bod cynnwys y BBC yn bodloni'r disgwyliadau hyn.

## Ymdrin â chwynion

**Cam un:** Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o gwynion gan Wasanaethau Cynulleidfaoedd y BBC. Ymdrinnir â rhai yn uniongyrchol gan y gwneuthurwyr rhaglenni neu'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol yr anfonir y cwynion atynt. Atebodd Gwasanaethau Cynulleidfaoedd y BBC ychydig o dan 240,000 o gwynion y llynedd, sef cynnydd o 20,000 o gymharu â 2009/10. Mae'n arferol bod niferoedd yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

Yn 2010 gosododd Gwasanaethau Cynulleidfaoedd y BBC gronfa ddata cwynion newydd. Yna codwyd nifer o broblemau a effeithiodd ar y broses o ymdrin â chwynion ar gam un, gan arwain at ymdrin ag 81% yn unig o gwynion o fewn yr amserlen darged o 10 diwrnod ar y cam hwn, o gymharu â 94% y flwyddyn cynt.

Roedd profiad rhai achwynwyr yn ystod y cyfnod hwn yn achos pryder a siom i'r Ymddiriedolaeth. Ers hynny mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth ar ei gamau gweithredu i adfer y gwasanaeth arferol ac ar wersi a ddysgwyd.

Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymarfer cwsmer cudd hefyd yn 2011 i brofi'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion i ddechrau drwy'r BBC cyfan. Roedd y gwasanaeth ffôn yn foddhaol. Effeithiwyd ar ymatebion ysgrifenedig gan rai problemau hysbys o ran perfformiad. Fe'n siomwyd mai dim ond 64% o lythyrau a 56% o negeseuon e-bost a gafodd ateb o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Fframwaith Cwynion. Nid yw'r lefel hon o wasanaeth ar gyfer cwynion ysgrifenedig yn foddhaol. Mae'n dda gennym nodi bod y Bwrdd Gweithredol wedi cymryd camau i wella amseroedd ymateb ar gam un.


**Cam dau:** Ymatebwyd i 257 o gwynion, y cafodd 17 ohonynt eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Ymatebwyd i 84% o fewn yr amserlen darged.

## Gwrando ar apeliadau (Cam tri)

Mae'r Ymddiriedolaeth, drwy'r Pwyllgor Safonau Golygyddol, yn gweithredu fel y canolwr terfynol ym mhroses gwyno'r BBC. Yn 2010, cafodd y Pwyllgor 111 o apeliadau, yr ymdriniwyd ag 84% ohonynt o fewn yr amserlen darged (16 wythnos ar ôl i'r apêl gael ei chyflwyno), o gymharu â 48% y llynedd. O'r rhain, gwrandawyd ar 40 gan y Pwyllgor, cadarnhawyd dau ohonynt, cadarnhawyd chwech ohonynt yn rhannol ac ni chadarnhawyd 32. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor achosion o dorri'r Canllawiau a nodwyd gan y Bwrdd Gweithredol. Roedd y canlynol yn arwyddocaol iawn:

- **BBC One – *Panorama – Primark: On the Rack:*** Cadarnhaodd y Pwyllgor apêl mewn perthynas â rhaglen *Panorama* o'r enw *Primark: On the Rack* a ddarlledwyd ar BBC One yn 2008. Roedd y rhaglen yn dangos tri bachgen yn Bangalore yn 'archwilio'r gwaith pwytho' ar ddillad Primark mae'n debyg. Ar ôl craffu'n ofalus ar yr holl dystiolaeth berthnasol, daeth y Pwyllgor i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, nad oedd yn debygol bod y ffilm o Bangalore yn ddilys ac y cafwyd achos difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol ar gywirdeb a thegwch. Galwodd yr Ymddiriedolaeth am ymddiheuriad ar yr awyr ac ar-lein. Amlygodd yr apêl fethiannau difrifol o ran y broses o wneud y rhaglen hon. Gofynnwyd i Fwrdd Gweithredol y BBC ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i bolisïau golygyddol y BBC o ganlyniad i'r apêl hon.
- **BBC Radio 1 – *Diwrnod Harry Potter:*** daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y Canllawiau Golygyddol wedi cael eu torri o ran y sylw amhriodol a roddwyd gan ystyried yr holl allbwn gyda'i gilydd yng nghyd-destun lansio ffilm Harry Potter ar yr un diwrnod â'r diwrnod thema hwn ar BBC Radio 1. O ganlyniad, cyflwynwyd canllaw newydd ar sylw amhriodol cronnol a phwysleisiwyd o'r newydd o fewn y BBC fod angen cyfeirio allbwn â thema o'r fath i dîm Polisi Golygyddol y BBC.

Sicrhau safonau golygyddol parhad/...

1



2


- **BBC One – *Panorama – Death in the Med*:** gwnaed mwy na 2,000 o gwynion am gywirdeb a didueddrwydd y rhaglen hon. Ym marn y Pwyllgor roedd y rhaglen yn wreiddiol, yn ddadlennol ac yn dangos ôl gwaith ymchwil da, a nodwyd ei bod yn annhebygol y byddai rhaglen a oedd yn ymdrin â mater dadleuol o'r fath yn gwbl ddi-wall o gael ei dadansoddi i'r fath raddau. Cododd yr apêl 51 o bwyntiau; cadarnhaodd y Pwyllgor dri o'r pwyntiau hyn (dau mewn perthynas â chywirdeb ac un mewn perthynas â didueddrwydd) ac ni chadarnhaodd y 48 o bwyntiau eraill. Ym marn y Pwyllgor roedd y rhaglen wedi sicrhau didueddrwydd a chywirdeb priodol.
- ***The Curse of Steptoe:*** ym mis Mai 2009 cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth gŵyn am anghywirdeb ac annhegwch yn y ddrama hon gan y BBC. Dangoswyd fersiwn wedi'i ail-olygu yn ddiweddarach y flwyddyn honno ar BBC HD a rhyddhawyd DVD ym mis Mehefin 2010. Haerodd yr achwynydd fod y rhaglen yn parhau i fod yn annheg. Cytunodd y Pwyllgor gan ofyn i'r Bwrdd Gweithredol beidio ag ailddarlledu'r rhaglen ar ei ffurf gyfredol a thynnu'n ôl bob copi o'r rhaglen a oedd ar werth.
- **Band Aid:** hysbyswyd y Pwyllgor bod y Bwrdd Gweithredol wedi cadarnhau cwyn yn rhannol gan Ymddiriedolaeth Band Aid am anghywirdeb ac annhegwch yn rhannol o ran adroddiadau ar y BBC ym mis Mawrth 2010. Darlledwyd ymddiheuriad.

Cyflwynwyd 24 o apeliadau i'r Panel Apeliadau Cyffredinol, sef pwyllgor yr Ymddiriedolaeth sy'n ymdrin â chwynion nad ydynt yn dod o dan weithdrefnau cwyno eraill y BBC, a derbyniwyd naw o'r rhain. Cwblhawyd saith o'r rhain o fewn 60 diwrnod, cynnydd sylweddol o gymharu â'r llynedd. Ni chadarnhawyd yr un gŵyn.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Er mwyn cynrychioli amrywiaeth talwyr ffi'r drwydded yn effeithiol, dylai'r BBC ei hun adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael gwybodaeth bob blwyddyn gan y Bwrdd Gweithredol am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu ei strategaeth amrywiaeth drwy'r BBC cyfan. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar amrywiaeth ymhlith cyflogeion y BBC.

### Canlyniadau ar gyfer 2010/11

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, *Observations on the Promotion of Equal Opportunities in Employment*, araf fu'r cynnydd mewn rhai meysydd gan gynnwys sicrhau bod mwy o amrywiaeth ymhlith uwch reolwyr ac mae cynnydd yn erbyn targedau amrywiaeth i bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a staff anabl yn parhau'n achos pryder. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Gweithredol yn nodi gweithgareddau sydd, dros y flwyddyn nesaf, wedi'u hanelu at ymateb i'r heriau hyn a'r targedau sydd ar waith tan 2012.

### Strategaeth amrywiaeth newydd

Eleni, datblygodd y Bwrdd Gweithredol strategaeth amrywiaeth newydd, yn weithredol hyd at 2014. Fe'i cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2011. Gwnaed hyn mewn ymateb i'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 newydd a estynnodd gwmpas deddfwriaeth flaenorol i gynnwys oedran, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chredo, a chyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal â hil, rhyw ac anabledd. Bydd y strategaeth newydd yn disodli cynlluniau cydraddoldeb presennol y BBC a oedd ar waith o ran hil, anabledd a rhyw. Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth newydd ac, fel o'r blaen, bydd yn cyflwyno adroddiad ar y strategaeth bob blwyddyn i'r Ymddiriedolaeth. Ochr yn ochr â'r strategaeth cyhoeddir y cynlluniau gweithredu amrywiaeth adrannol sy'n manylu ar y ffordd y bydd y Bwrdd Gweithredol yn ei gweithredu.

1 Mae canllawiau golygyddol y BBC ar gael yn www.bbc.co.uk/editorialguidelines/.
2 Mehmuda Mian yw'r Ymddiriedolwr arweiniol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

# Perfformiad ariannol

Nid sefydliad sy'n gwneud elw mo'r BBC ac felly nid yw'n gorfod ystyried yr agwedd hon. Yn hytrach, rydym yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn cyfres o amcanion ariannol sy'n rhoi mesur o gynnydd y BBC o ran creu a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae'r BBC wedi cyflawni'r amcanion ariannol a bennwyd gennym yn flaenorol, neu mae ar y trywydd iawn i wneud hynny.

## Alldro ar gyfer 2010/11 yn erbyn yr amcanion craidd hynny:

- **Sicrhau'r incwm mwyaf i'r BBC drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon â phosibl:** er gwaethaf yr amodau economaidd anodd unwaith eto mae'r BBC wedi lleihau cyfran ffi'r drwydded a werir ar weithgareddau casglu - gostyngiad o 0.1% i 3.4%. Mae cyfanswm cost osgoi talu a chasglu wedi aros yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn sef 8.6% o ffi'r drwydded a gesglir.
- **Gwneud y BBC mor effeithlon â phosibl, a rhoi gwerth da am arian:** mae'r BBC ar y trywydd iawn i ateb yr her a bennwyd i'r Bwrdd Gweithredol gennym sef sicrhau arbedion effeithlonrwydd gwerth £1.9biliwn erbyn 2013. Gwnaed arbedion effeithlonrwydd ychwanegol gwerth £434miliwn yn ystod y flwyddyn gan arwain at gyfanswm o £903miliwn o arbedion dros y tair blynedd diwethaf.
- **Sicrhau'r elw mwyaf i'r BBC am raglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded:** mae cyfraniad BBC Worldwide i'r arian sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yn y DU, sydd ar ffurf cyfuniad o ddifidendau a buddsoddiad uniongyrchol mewn rhaglenni, wedi cynyddu eto – cynnydd o 9% o gymharu â'r flwyddyn cynt i £182miliwn.
- **Lledaenu mantais ffi'r drwydded drwy'r DU gyfan:** mae'r BBC yn parhau i wneud cynnydd tuag at y targed a bennwyd gennym i sicrhau bod 50% o deledu rhwydwaith (yn ôl gwariant) yn cael ei wneud y tu allan i Lundain erbyn 2016 gyda 12% yn cael ei wario yn y gwledydd erbyn 2012 a 16% erbyn 2016.
- **Sicrhau bod ffi'r drwydded yn cefnogi'r economi ehangach:** mae'r BBC wedi gwario £1.1biliwn yn economi greadigol y DU yn ystod 2010/11. Mae'r BBC wedi comisiynu 36% a 13% o gynnwys teledu a radio cymwys yn y drefn honno gan gynhyrchwyr annibynnol.

Nodir perfformiad y BBC yn erbyn yr amcanion hyn yn fanylach yn arolwg y Prif Swyddog Ariannol yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Isod gwnawn sylwadau ar ddau faes lle rydym wedi cymryd diddordeb manwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gallwch hefyd ddarllen mwy am y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy i sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei gwario'n ddoeth yn yr adran nesaf.

## Sefydlogrwydd ariannol i'r BBC

Cytunwyd ar setliad newydd ffi'r drwydded gyda'r Llywodraeth sy'n cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd ariannol i'r BBC hyd at 2017. Mae'n setliad anodd a bydd ffi'r drwydded wedi'i rhewi am y chwe blynedd nesaf tra bo'r BBC hefyd yn ariannu rhwymedigaethau newydd o'r arian hwnnw - gostyngiad mewn termau real. Golyga hyn y bydd angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd ynglŷn â'r ffordd y mae'r BBC yn gwario ei arian. Fodd bynnag mae'r setliad yn cynnig rhywfaint o sefydlogrwydd, gan roi lle i ni wneud y penderfyniadau angenrheidiol yn y dyfodol ynglŷn â maint a ffurf gwasanaethau'r BBC ac i bennu targedau ariannol heriol newydd ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Cynllun Pensiwn

Mae gan y BBC ddiffyg pensiwn sylweddol ac roedd yn bwysig bod Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ariannu i fynd i'r afael ag ef a oedd nid yn unig yn deg i aelodau'r cynllun pensiwn a'r BBC ond, yn bwysig ddigon, i dalwyr ffi'r drwydded sy'n ariannu'r BBC. Rydym wedi cymryd diddordeb manwl yn niwygiadau'r Bwrdd Gweithredol i'r cynllun pensiwn er mwyn sicrhau bod y cynllun presennol yn parhau'n fforddiadwy a bod modd ei ariannu yn y tymor hwy. Rydym yn fodlon y bydd y cynllun lleihau diffyg a'r diwygiadau eraill y cytunwyd arnynt gydag Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn yn sicrhau y gall y BBC barhau i gyflawni ei rwymedigaethau fel cyflogwr a hefyd sicrhau nad yw ariannu'r pensiynau yn mynd â swm anghymesur o bob ffi'r drwydded.

# Cyflawni gwerth am arian

Fel Ymddiriedolwyr y BBC, rydym yn gyfrifol am sicrhau y caiff ffi'r drwydded ei gwario'n ddoeth, gyda thalwyr ffi'r drwydded yn cael y gwerth mwyaf posibl am bob punt a werir. Bu hwn yn ganolog i arolwg strategol 2010, ac mae setliad ffi'r drwydded a sicrhawyd gennym ym mis Hydref 2010 yn golygu y bydd yn rhaid i'r BBC weithio hyd yn oed yn galetach i wella ansawdd a lleihau gorbenion ar yr un pryd.

Ein rôl yw sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei gwario mewn ffyrdd sy'n bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cynnig gwerth am arian. Rydym yn canolbwyntio ar bum maes:

- pennu cyllidebau ac amcanion
- monitro gweithrediadau
- arolygon penodol, y mae rhai ohonynt wedi'u dewis ar ôl trafod â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- cyfraniad gweithrediadau masnachol (BBC Worldwide)
- pennu fframwaith a strategaeth ar gyfer tâl swyddogion gweithredol.

Rydym wrthi'n ystyried goblygiadau setliad ffi'r drwydded, ond gellir lleihau'r effaith ar wasanaethau drwy ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Gyda chyllidebau tynnach, mae'n bwysicach nag erioed bod y BBC yn parhau i ganolbwyntio ar leihau gorbenion a hefyd fuddsoddi mewn cynnwys o safon uchel y gwyddom fod talwyr ffi'r drwydded am ei weld.

### Pennu cyllidebau ac amcanion

Bob blwyddyn rydym yn adolygu cyllid a chynlluniau cyllidebol y BBC yn drwyadl a gofyn cwestiynau yn eu cylch. Pan gaiff ein cwestiynau eu hateb a phan wneir y newidiadau y gofynnir amdanynt, rydym yn cymeradwyo cyllideb flynyddol y BBC a'i gynlluniau ariannol yn y tymor hwy. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym yn adolygu ac, os bydd angen, yn newid cyllidebau gwasanaeth unigol fel y'u nodwyd yn eu trwyddedau gwasanaeth. Mae'r cyllidebau gwasanaeth cyfredol ar ein gwefan.

Lle y bo'n briodol, byddwn hefyd yn pennu amcanion ariannol i lywio'r ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn rheoli gweithrediadau. Yn 2007 pennwyd targedau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd gennym ar lefel y BBC cyfan, ac wedyn pennwyd targedau ar gyfer ffioedd talent a thâl uwch reolwyr. Yn ystod 2010, fel rhan o'r arolwg strategol, pennwyd amcanion pellach o ran arbedion, gan ofyn i'r BBC ddod o hyd i arbedion ychwanegol i wrthbwyso'r ffaith y bydd ffi'r drwydded wedi'i rhewi dros y chwe blynedd nesaf. Penderfynwyd hefyd newid yr amserlen ar gyfer torri 25% ym mil tâl uwch reolwyr yn ôl ein cais a'i chyflwyno'n gynt.

Oherwydd setliad newydd ffi'r drwydded mae'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2011/12 yn un dros dro a fydd yn galluogi'r BBC i barhau â'i weithrediadau tra bo'r Bwrdd Gweithredol yn datblygu cynlluniau manylach ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod a fydd yn adlewyrchu'r lefel is o gyllid.

### Monitro gweithrediadau

Rydym yn monitro sefyllfa ariannol barhaus y BBC a'i brosesau rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol. Rydym yn holi'r archwilwyr allanol, archwilwyr mewnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio am eu barn ar amgylchedd rheoli'r BBC. Rydym hefyd yn gofyn am wybodaeth am feysydd penodol lle mae gennym ddiddordeb ac am y meysydd hynny lle rydym wedi pennu targedau effeithlonrwydd penodol yn y gorffennol.

### Uchafbwyntiau 2010/11

- **Targed effeithlonrwydd o 3%:** gwnaeth y BBC arbedion effeithlonrwydd ychwanegol gwerth £434miliwn yn ystod 2010/11 gan roi cyfanswm arbedion net cronnol o £903miliwn dros y tair blynedd diwethaf. Gofynnwyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol roi barn annibynnol ar y ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn rheoli'r rhaglen effeithlonrwydd, a byddwn yn cael adborth yn 2011.
- **Costau talent:** yn 2009 gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol leihau gwariant ar dalent, yn enwedig ar y lefel uchaf. Eleni gwariodd y BBC £9miliwn yn llai ar dalent, yr oedd £2.9miliwn o'r swm hwnnw yn ymwneud â'r rhai a oedd yn ennill dros £100,000 y flwyddyn.
- **Tâl uwch reolwyr:** mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud cynnydd yn erbyn y targed i leihau bil cyflog uwch reolwyr 25% cyn diwedd 2011; erbyn mis Mawrth roedd wedi'i leihau dros 18%. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro cyflawniad yn erbyn y targed hwn yn fanwl.
- **Archwilio hynt prosiectau:** yn sgîl adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar brosiectau ystad mawr y BBC y llynedd, gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol gynnal cyfres o archwiliadau annibynnol o hynt prosiectau strategol mawr y BBC. Rydym wedi monitro canlyniad yr arolygon hyn drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn fodlon ar y ffordd y rheolir y prosiectau hyn.



Daeth yr astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o gyfresi drama parhaus y BBC - gan gynnwys *EastEnders*, a ddangosir yma – i'r casgliad bod costau cynhyrchu'n cael eu rheoli'n dynn.

- **Cydymffurfiaeth â chyllidebau trwydded gwasanaeth:** roedd pob un ond un o'r gwasanaethau yn cydymffurfio a'i gyllideb. Tanwariodd BBC Radio 1Xtra ei gyllideb 13% gan fynd y tu hwnt i'r goddefiant a ganiateir sef 10%. Ond roeddem yn fodlon am fod y data perfformiad sylfaenol wedi dangos na wnaeth y tanwariant hwn beryglu ansawdd.
- **Casglu ffi'r drwydded:** gwrandawyd ar un apêl a oedd yn ymwneud â chwynion am gasglu ffi'r drwydded, apêl nas cadarnhawyd. Cafodd apêl arall, y gwrandawyd arni ers diwedd y flwyddyn, ei chadarnhau'n rhannol ac o ganlyniad gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol adolygu ei brosesau i leihau ymhellach y risg y gellir mynd ar drywydd rhai cartrefi gyda thrwydded yn ddiangen.

## Arolygon gwerth am arian penodol

Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o astudiaethau gwerth am arian, a gomisiynir yn bennaf oddi wrth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n gweithredu fel archwiliad annibynnol o weithgareddau'r Bwrdd Gweithredol.

Eleni comisiynwyd dwy astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a thrydedd gan ymgynghoriaeth MTM London. Mae'r tri adroddiad ar ein gwefan gan gynnwys yr argymhellion a wnaed a pha gamau y mae'r Bwrdd Gweithredol wedi eu cymryd o ganlyniad i hynny.

### Rhaglen DMI (astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)

Prosiect trawsnewid technegol yw menter y cyfryngau digidol (DMI), sydd â'r nod o alluogi staff y BBC i ddatblygu, creu, rhannu a rheoli cynnwys fideo a sain a rhaglenni ar eu bwrdd gwaith. Nod y prosiect, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2008 gyda chostau o £133.6miliwn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017, yw gwella effeithlonrwydd cynhyrchu drwy'r BBC cyfan.

Penododd y Bwrdd Gweithredol gontractwr TG cyfredol y BBC, Siemens, i ddatblygu'r rhaglen. Terfynwyd y contract â Siemens drwy gytundeb y ddwy ochr ym mis Gorffennaf 2009, a phenderfynodd y Bwrdd Gweithredol y câi'r prosiect ei gyflawni'n fewnol, gan wrthbwyso ei gostau cynyddol drwy gytundeb ariannol o £27.5miliwn â Siemens. Daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad nad oedd camau cynnar y prosiect wedi rhoi gwerth da am arian, yn bennaf o ganlyniad i oedi o 21 mis a arweiniodd at beidio â darparu buddiannau gwerth £26miliwn yn y cyfnod 2009/10 hyd at 2010/11. Fodd bynnag, nodwyd bod y broses o ddarparu'r system yn fewnol wedi dechrau'n dda ac, er bod llawer eto i'w wneud, mae defnyddwyr wedi bod yn gadarnhaol am yr elfennau a gyflawnwyd hyd yma.

### Cynhyrchu drama barhaus (astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol)

Ystyriodd yr astudiaeth gostau cynhyrchu ar chwe sioe hirhoedlog. Canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod pob un yn cael ei rheoli'n dynn a bod cost gyfartalog cynhyrchu awr o ddrama barhaus wedi gostwng 20% mewn termau real dros yr wyth mlynedd diwethaf, gyda'r rhaglenni yn cael eu darparu ar amser ac o fewn y gyllideb ar y cyfan. Ond, argymhellodd y dylai'r BBC atgyfnerthu'r ffordd y sicrheir gwerth am arian mewn drama barhaus drwy fod yn fwy systematig wrth gymharu a herio costau a phrosesau cynhyrchu.

### Rheoli hawliau chwaraeon (astudiaeth gan MTM London)

Diwygiwyd y broses o gaffael hawliau chwaraeon gan y Bwrdd Gweithredol yn sgîl canfyddiad masnachu teg yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â chaffael hawliau Cwpan yr FA yn 2009. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod y BBC wedi gwella ei brosesau ar gyfer caffael hawliau chwaraeon, a bod y rhain yn gweithio'n effeithiol ac yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded yn dda ar y cyfan. Eto i gyd gwnaeth gyfres o argymhellion ynglŷn ag atgyfnerthu'r prosesau caffael presennol.

## Cyfraniad gweithgareddau masnachol (BBC Worldwide)

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cymeradwywyd strategaeth fasnachol newydd i BBC Worldwide. Mae BBC Worldwide yn manteisio ar werth eiddo deallusol y BBC ar ran talwyr ffi'r drwydded a thrwy'r gweithgareddau hyn gall wneud cyfraniad mawr, drwy ddifidendau a buddsoddiad uniongyrchol mewn rhaglenni, i ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae wedi gwneud enillion o £486miliwn dros y tair blynedd diwethaf.

Wrth gymeradwyo'r strategaeth fasnachol rydym yn sicrhau ein bod rhoi fframwaith clir i BBC Worldwide weithredu oddi mewn iddo, sy'n sicrhau bod ei weithgareddau'n hollol

gyson â buddiant gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Yn benodol ceisiwn sicrhau nad oes unrhyw weithgarwch masnachol yn effeithio'n andwyol ar frand craidd y BBC nac enw da'r BBC, gartref neu dramor. Mae'r fframwaith yn cynnwys ffocws ar eiddo deallusol y BBC a thwf rhyngwladol. Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am dwf a lefelau risg derbyniol.

Nod y strategaeth newydd i BBC Worldwide yw sicrhau ei fod yn rhoi difidendau cynaliadwy cynyddol (o fewn y fframwaith a bennwyd gan Fwrdd Gweithredol y BBC a'r Ymddiriedolaeth) i ategu model ariannu cyffredinol y BBC.

## Pennu fframwaith a strategaeth ar gyfer tâl swyddogion gweithredol

Rydym yn cydnabod bod y symiau y mae'r BBC yn eu talu i'w bobl yn chwarae rhan fawr o ran sicrhau gwerth am arian. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldeb penodol am bennu cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'n pennu'r strategaeth ar gyfer tâl swyddogion gweithredol, ac mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn pennu cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol o fewn y strategaeth honno.

O ran tâl swyddogion gweithredol ein nod yw cael cydbwysedd rhwng sicrhau bod y BBC yn talu digon i ddenu'r bobl gywir i ddarparu'r gwasanaeth nodedig o safon dda y mae talwyr ffi'r drwydded yn ei ddisgwyl, a bodloni disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded y bydd y BBC yn cynnig gwerth am arian. Mae'r ystyriaeth olaf hon o bwys arbennig ar adeg o gwtogi ariannol. Mae'n rhaid i gydnabyddiaeth swyddogion gweithredol yn y BBC hefyd adlewyrchu'r ffaith bod y BBC yn sefydliad a ariennir gan arian cyhoeddus sy'n arddel gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus. Wrth reswm caiff hyn ei ystyried wrth i'r strategaeth gyfredol gael ei hadolygu.

## Cyflawni ein targed o leihau tâl swyddogion gweithredol yn gynt

Pennwyd y fframwaith cyfredol ar gyfer cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol yn y BBC gan ein harolwg yn 2009. Ymhlith pethau eraill, gofynnodd yr arolwg hwn am ostyngiad o 25% ym mil cyflog uwch reolwyr. Yn ystod 2010/11 cytunwyd â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol y dylid cyflawni'r targed hwn erbyn mis Rhagfyr 2011, ac mae'r Bwrdd Gweithredol ar y trywydd iawn i wneud hyn.

Eleni mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi goruchwylio newidiadau sylweddol i'r Bwrdd Gweithredol a fydd yn helpu i gyflawni'r targed, a chroesawn yr ymateb hwn. Yn ogystal â newidiadau strwythurol, mae pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno ar ostyngiad gwirfoddol yn eu cydnabyddiaeth, sy'n cyfateb i fis o'u cyflog sylfaenol neu ffioedd; bydd y gostyngiad hwn yn cael ei wneud am ddwy flynedd.

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol 2010/11

Ceir manylion y swm a dalwyd i aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer 2010/11 yn adroddiad Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

### a) Cyfarwyddwr Cyffredinol

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Mark Thompson, yw prif swyddog gweithredol y BBC, ei brif olygydd a Chadeirydd y Bwrdd Gweithredol. O ran cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol ein nod yw cynnig pecyn sy'n denu ac yn cadw unigolyn o'r safon angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl ymestynnol hon a rhoi arweiniad effeithiol.

Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol, pensiwn a'r hawl i gael ei ystyried am dâl bonws ar sail perfformiad. Mae'r elfen o dâl bonws wedi'i hatal ar hyn o bryd. Bu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael 'tâl pensiwn atodol' ar ffurf cyfraniad arian parod sy'n cyfateb i'w bensiwn ar gyfran o'i gyflog a oedd yn uwch na'r cap enillion pensiwn. Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai'n rhoi'r gorau i'r hawl hon, yn unol â'r cyfarwyddwyr gweithredol eraill. Daeth y newid hwn i rym o 1 Ebrill 2011.

Darperir car â gyrrwr ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n eu defnyddio'n bennaf ar gyfer teithiau busnes yn Llundain; nid oes ganddo hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

Ar ran yr Ymddiriedolaeth mae'r Cadeirydd yn cynnal asesiad blynyddol o berfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'n parhau i gyflawni ei amcanion a chredwn ei fod yn arwain y BBC mewn ffordd gadarn ac effeithiol. Y dyddiad posibl nesaf ar gyfer arolwg o gyflog i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd mis Awst 2013.

### b) Cyfarwyddwyr anweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr anweithredol yn cael ffi a bennir gan yr Ymddiriedolaeth, sy'n adlewyrchu'r rôl a'r amser sydd ei angen. Pennwyd lefelau ffioedd yn wreiddiol drwy gyfeirio at gyfraddau a delir gan gorfforaethau eraill yn y DU, ond ar lefel sy'n sicrhau nad yw'r cyfarwyddwyr anweithredol yn dibynnu'n ariannol ar y BBC.

Mae pob cyfarwyddwr anweithredol yn cael ffi sylfaenol; mae cadeirydd pob pwyllgor yn cael ffi ychwanegol ar gyfer cadeirio pwyllgor; ac mae'r uwch gyfarwyddwr anweithredol hefyd yn cael ffi ychwanegol. Caiff cyfarwyddwyr eu had-dalu am dreuliau, a chaiff unrhyw dreth a godir ar y treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC.

Ym mis Rhagfyr 2010 adolygwyd lefel y ffioedd a delir i'r cyfarwyddwyr anweithredol a chytunwyd na fyddai newid yn y lefel; caiff yr arolwg nesaf ei gynnal ym mis Rhagfyr 2013. Ar hyn o bryd mae'r cyfarwyddwyr anweithredol yn derbyn gostyngiad gwirfoddol yn eu ffioedd sy'n cyfateb i fis o gyflog.

### c) Cyfarwyddwyr gweithredol

Bob blwyddyn mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn rhoi adroddiad ffurfiol i'r Ymddiriedolaeth sy'n rhoi sicrwydd i ni fod strategaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol wedi cael ei dilyn. Rydym wedi ystyried yr adroddiad ar gyfer 2010/11 ac wedi dod i'r casgliad bod y strategaeth gyfredol yn cael ei dilyn.

# Masnachu'n deg

Mae dyletswydd arnom i sicrhau bod y BBC yn cynnal ei weithgareddau masnachu'n deg a lleihau ei effaith gystadleuol ar eraill cymaint â phosibl.  Eleni cynhaliwyd arolwg o'r polisi masnachu teg sy'n rheoli ymddygiad masnachu'r BBC, a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ystod haf 2011.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gosod polisïau masnachu teg lefel uchel sy'n pennu'r hyn y dylai'r BBC, fel darlledwr cyhoeddus, ei wneud i leihau ei effaith ar eraill yn y marchnadoedd lle mae'n gweithredu (gweler www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work).  Er bod yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gymeradwyo gwasanaethau newydd y BBC neu newidiadau sylweddol i wasanaethau drwy brawf gwerth cyhoeddus, rydym hefyd yn craffu ar rai gweithgareddau arfaethedig eraill er mwyn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran masnachu teg.

Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth masnachu teg y BBC o ddydd i ddydd ac am ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â masnachu teg drwy ei Bwyllgor Masnachu Teg.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried apeliadau ar faterion Masnachu Teg. Y llynedd ystyriodd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth apêl ynglŷn â masnachu teg gan Virgin Media o ran BBC iPlayer.

### Uchafbwyntiau 2010/11

Yn ystod 2010/11:

- cymeradwywyd cynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i lansio Apps Newyddion a Chwaraeon ar gyfer dyfeisiau symudol yn sgîl ymchwil annibynnol i'r farchnad Apps a gyhoeddwyd ganddo. Ysgogwyd asesiad yr Ymddiriedolaeth gan sylwadau gan y diwydiant. Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth nad oedd angen prawf gwerth cyhoeddus i gymeradwyo'r cynnig hwn
- lansiwyd ymgynghoriad mawr â'r cyhoedd ac arolwg o bolisi syndicetio'r BBC, a gaiff ei gyhoeddi yn 2011. Mae'r polisi yn amlinellu'r ffordd y mae'r BBC yn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach drwy sicrhau bod ei gynnwys ar gael ar lwyfannau trydydd parti
- cyhoeddwyd astudiaeth o'r ffordd y mae'r BBC yn sicrhau gwerth am arian pan fydd yn caffael hawliau chwaraeon i'w darlledu ar y radio a'r teledu, yn sgîl apêl masnachu teg a gadarnhawyd yn rhannol gennym y llynedd. Daeth yr arolwg i'r casgliad bod y ffordd y mae'r BBC yn rheoli caffael hawliau chwaraeon yn gweithio'n dda ar y cyfan ond gwnaeth rai argymhellion i atgyfnerthu prosesau caffael ymhellach
- lansiwyd ein harolwg cyntaf o bolisïau masnachu teg yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys ymgynghoriad â'r cyhoedd, a gaiff ei gyhoeddi yn ystod 2011. Mae'r arolwg hwn yn ystyried pa mor dda mae'r polisi cyfredol yn gweithio ac a ellir gwneud unrhyw welliannau. Mae'n edrych ar safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad â'r cyhoedd, gan staff y BBC, mewn apeliadau gerbron yr Ymddiriedolaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a hefyd ar sylwadau gan yr archwilwyr masnachu teg allanol
- comisiynwyd archwilwyr allanol i roi adroddiad i ni ar gydymffurfiaeth y BBC â'i bolisi masnachu teg ei hun
- mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn goruchwylio gwasanaethau masnachol y BBC nas ariennir drwy ffi'r drwydded. Mae'r gwasanaethau hyn yn destun gofynion gwahanol, ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â threfn masnachu teg y BBC a rhaid iddynt beidio ag ystumio'r farchnad

## Adroddiad yr archwilwyr masnachu teg annibynnol i Ymddiriedolaeth y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

Rydym wedi archwilio, yn ein rôl fel archwilwyr masnachu teg y BBC, y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol bod Bwrdd Gweithredol y BBC wedi cydymffurfio â gofynion ei Bolisi ar Fasnachu Teg, Codau Effaith Gystadleuol a'r Canllawiau ar Fasnachu Teg ('y Trefniadau ar gyfer Masnachu Teg') am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymgysylltiad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith i'w wneud, gyda Phwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC ac wedyn Bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylid cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymgysylltiadau Sicrwydd (ISAE) 3000, cytundeb ar derfyn ein hatebolrwydd mewn perthynas â'r gwaith hwn a chytundeb mai ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff, yn unig y mae ein dyletswydd gofal mewn perthynas â'r gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

## Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC ac archwilwyr masnachu teg

Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn masnachu'n deg. Mae hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adran yn Adroddiad Blynyddol y BBC sy'n dwyn y teitl 'Masnachu'n deg'. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi i'r Bwrdd Gweithredol y dasg o sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai fygwth masnachu teg a chynllunio a gweithredu ymatebion i'r fath risgiau.

Fel archwilydd masnachu teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, o ran y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. Dim ond i'r graddau yr oedd angen gwneud hynny er mwyn llunio barn ar gymhwyso'r system o reolaethau mewnol yr adolygwyd penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC ar faterion masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad yr Ymddiriedolaeth ar fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o gydymffurfiaeth y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd ein barn i'r Ymddiriedolaeth, fel corff, yn unig, yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt gydag Uned yr Ymddiriedolaeth o fewn y BBC ar ran y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth. Drwy roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y daw i'w ran ac eithrio'r Ymddiriedolaeth neu'r Bwrdd Gweithredol, ac ni chaiff unrhyw unigolyn arall ddibynnu ar ein barn, oni chytunwyd ar hynny'n benodol drwy gyfrwng caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym.

## Ein dull o weithredu

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymgysylltiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymgysylltiad sicrwydd rhesymol yw ymgymryd â'r cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth briodol i ni fynegi casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Drefniadau Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. Roedd ein gwaith yn cynnwys ymholi a phrofi i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol gennym hefyd er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi'i chymhwyso.

## Cyfyngiadau cynhenid


Fel gydag unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac afreoleidd-dra wedi digwydd heb iddynt gael eu canfod. Nod ein gwaith archwilio oedd rhoi sicrwydd rhesymol i'r Ymddiriedolaeth o ran digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion ei Threfniadau Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. At hynny, gan fod materion masnachu teg yn gofyn am ddyfarniadau a allai gael eu profi mewn llys barn, awdurdod cystadlu neu mewn man arall yn y pen draw, mae risg bob amser y caiff y rhain eu herio hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol ac y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal pennaf.

## Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011.

**Deloitte LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Llundain**
23 Mehefin 2011

# PERFFORMIAD YR YMDDIRIEDOLAETH



Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau allan o'r BBC. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r rhaglenni a'r gwasanaethau nodedig o safon y gwyddom fod cynulleidfaoedd yn dymuno eu cael; sicrhau mwy o werth am ffi'r drwydded; a sicrhau bod y BBC yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon, agored a theg er budd pob cynulleidfa. Eleni hefyd llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau gwell bargen i gynulleidfaoedd a dyfodol sefydlog i'r BBC drwy gyd-drafod setliad newydd ffi'r drwydded.

Mae Celfyddydau a pherfformio byw, yn ogystal â sylwadaeth a thrafodaeth yn eu cylch, yn elfennau nodedig o wasanaethau'r BBC. Mae'r llun yn dangos Mark Kermode, beirniad ffilm BBC Radio 5 Live a chyd-gyflwynydd *The Culture Show* ar BBC Two.

# Dyfodol sefydlog i'r BBC

## Setliad ffi'r drwydded

**Daeth y BBC i gytundeb â'r llywodraeth ar setliad newydd ar gyfer ffi'r drwydded yn ystod hydref 2010. Ni ddisgwylid i'r setliad gael ei lunio ar yr adeg hon ond ysgogwyd hynny gan adolygiad y llywodraeth o wariant a oedd wedi cynnwys ystyried trefniant lle byddai'r BBC yn dod yn gyfrifol am ariannu trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed a BBC World Service.**

**Teimlai'r Ymddiriedolaeth na ellid trafod cwestiynau ariannol mor bwysig heb arolwg o ffi'r drwydded, gan na allai'r BBC ymgymryd â rhwymedigaethau ariannol ychwanegol heb sicrwydd setliad hirdymor.**

### Diogelu annibyniaeth y BBC

Felly, gan weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Gweithredol, roeddem yn fwy na pharod i gyd-drafod ar sail setliad llawn ffi'r drwydded hyd at 2017, sef diwedd cyfnod y Siarter Frenhinol gyfredol. Ein hamcan canolog yn ystod y cyd-drafodaethau oedd diogelu annibyniaeth olygyddol a gweithredol y BBC. Roeddem hefyd am sicrhau y byddai'r BBC yn cael y sicrwydd o ran cyllid yr oedd ei angen i ddarparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau o safon y mae talwyr ffi'r drwydded yn eu disgwyl. Ein hegwyddorion oedd:

- bod yn rhaid i ffi'r drwydded gael ei chlymu wrth ddiwedd cyfnod y Siarter Frenhinol ac nid wrth gyfnod gwario'r Llywodraeth
- na ddylid gosod gofynion eraill ar gyllid y BBC yn ystod y cyfnod hwnnw
- bod yn rhaid i benderfyniadau ynglŷn â maint a chwmpas gwasanaethau'r BBC barhau'n gyfrifoldeb ar yr Ymddiriedolaeth fel y'i nodwyd yn y Siarter Frenhinol, a bod yn rhaid i unrhyw dargedau effeithlonrwydd newydd ganiatáu i'r Ymddiriedolaeth ailystyried cwmpas gwasanaethau os oedd angen
- bod yn rhaid i unrhyw ddefnydd o arian ffi'r drwydded gyfrannu at bwrpasau cyhoeddus y BBC fel sy'n ofynnol o dan y Siarter Frenhinol, ac y dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol i dalwyr ffi'r drwydded am y ffordd y gwerir yr holl arian hwnnw.

### Bargen deg i dalwyr ffi'r drwydded

Wrth gyd-drafod â'r Llywodraeth, yn ein barn ni, sicrhawyd bargen deg gennym i dalwyr ffi'r drwydded, o ystyried yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni. Caiff ffi'r drwydded ei rhewi hyd at ddiwedd y setliad, sy'n golygu gostyngiad mewn termau real bob blwyddyn.

Mae rhwymedigaethau newydd ar y BBC. Rydym wedi cytuno i ddod yn gyfrifol am ariannu BBC World Service a BBC Monitoring, o 2014 a 2013 yn y drefn honno, sef rhywbeth creiddiol i'n pwrpas cyhoeddus o gyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU. Byddwn yn helpu i greu partneriaeth a model ariannu newydd i S4C. Byddwn hefyd yn darparu rhywfaint o gyllid ar gyfer gwasanaethau teledu lleol newydd. Caiff ran o ffi'r drwydded ei chadw i'w gwario ar gyflwyno band eang, o ystyried ein pwrpas i helpu i sicrhau buddiannau technoleg newydd i'r cyhoedd.

Gwrthodwyd gennym gynnig y Llywodraeth y dylai'r BBC ariannu trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed. Byddant yn parhau i gael eu hariannu gan y Llywodraeth.

Mae'r setliad yn un anodd, ond mae'n cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd, ac mae'n sicrhau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud penderfyniadau ar faint a natur gwasanaethau'r BBC sy'n gyson â'n pwrpasau cyhoeddus ac er budd talwyr ffi'r drwydded.

Oherwydd natur fuan y cyd-drafodaethau ar y setliad, ni fu modd i ni gynnwys talwyr ffi'r drwydded, ond byddwn yn ymgynghori â hwy ar y penderfyniadau sydd angen eu gwneud i roi'r setliad ar waith a gwneud yr arbedion angenrheidiol.

Mae setliad anodd ffi'r drwydded yn herio'r BBC i barhau i ddarparu cynnwys nodedig yn unol â'i bwrpasau cyhoeddus craidd.






# Sicrhau bod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth

## Gwella ansawdd a natur nodedig

**Buom yn gyson o ran gosod her i'r Bwrdd Gweithredol godi safonau a gwella natur nodedig gwasanaethau. Am ei fod yn cael ei ariannu drwy ffi trwydded, mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i roi sylw i bethau amgen na ffigurau gwylwyr. Diben y BBC yw cyflawni uchelgeisiau gwasanaeth cyhoeddus. Mae cyfraniad y BBC i ddiwylliant a chymdeithas Prydain yn anferth; credwn y gall fod yn hyd yn oed yn fwy drwy uchelgais greadigol gwneuthurwyr a chomisiynwyr rhaglenni.**

Mae cynulleidfaoedd y BBC yn ymwybodol iawn o hynny. Fel y gwyddom o'n gwaith ymchwil, cynnwys gwych yw eu blaenoriaeth bwysicaf. Felly mae natur nodedig yn ganolog i bob un o'n harolygon o wasanaethau. Nid yw'r arolygon hyn yn gyfyngedig i ganlyniadau yn unig; maent yn nodi argymhellion i wella'r gwasanaeth y byddwn yn gweithredu arnynt wedyn. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn hon.

### BBC Radio 2 – yn hyrwyddo natur nodedig rhaglenni yn ystod y dydd

Mae BBC Radio 2 yn orsaf hynod boblogaidd ac mae ei gwrandawyr niferus yn ei gwerthfawrogi'n fawr iawn. Gofynnodd ein harolwg o wasanaeth i'r orsaf harneisio ei phoblogrwydd i gymryd mwy o risgiau creadigol a dangos natur fwy nodedig mewn allbwn yn ystod y dydd. Ymhlith yr enghreifftiau lle roedd BBC Radio 2 wedi derbyn yr her hon yn ystod y flwyddyn roedd cystadleuaeth stori fer Chris Evans i blant 13 oed ac iau; cefnogaeth amser gyrru i wythnos farddoniaeth er mwyn cyd-daro â diwrnod cenedlaethol Barddoniaeth; ymgyrch gweithredu cymdeithasol i hyrwyddo'r defnydd o'r rhyngrwyd ymhlith gwrandawyr hŷn BBC Radio 2; a newid y darllediad o'r *Folk Awards* i'r amser brig.

### BBC Two – adennill uchelgais greadigol

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae cynulleidfaoedd wedi dod yn llai sicr ynglŷn â rôl BBC Two, a all fod yng nghysgod y brif sianel deledu, BBC One. Yn ystod trafodaethau ar y mater hwn gyda'r Bwrdd Gweithredol fel rhan o'n harolwg o wasanaeth, gwelwyd cynnydd gwirioneddol o ran BBC Two yn cyflawni mwy o uchelgais greadigol ar draws ystod o raglennu, o ddrama a chomedi i raglenni ffordd o fyw a rhaglenni ffeithiol arbenigol. Credwn fod rôl BBC Two yn dod yn llawer mwy eglur erbyn hyn.

### Blaenoriaeth sy'n parhau

Wrth gwrs, mae cysyniadau o ansawdd a natur nodedig bob amser yn newid; efallai na fydd rhaglen a oedd yn ymddangos yn nodedig un flwyddyn yn ymddangos felly y flwyddyn ganlynol. Felly bydd ein harolygon o wasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ansawdd a natur nodedig, a fydd yn parhau'n flaenoriaeth strategol i'r BBC.

Mae Graham Norton, BBC Radio 2, yn cynnig cymysgedd bywiog o gerddoriaeth, sgwrsio â sêr, chwaraeon a theithio i'w wrandawyr.

# Gwneud i bob ceiniog gyfrif

## Gwella gwerth am arian

**Mae gwella gwerth am arian yn golygu cael mwy am ffi'r drwydded. Nid yw'n ymwneud â thorri costau, er bod elfen o hynny bob amser. Yn hytrach mae'n ymwneud â phennu blaenoriaethau clir i'r BBC, a hynny'n seiliedig ar yr hyn a ddymuna cynulleidfaoedd, gan sicrhau y caiff arian ei wario'n ddoeth ar y blaenoriaethau hyn. Ar hyn o bryd dim ond tua 58% o'r cynulleidfaoedd sy'n credu bod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth da am arian. Felly mae angen i ni wella, ac esbonio'n well sut y caiff yr arian ei wario.**

### Canolbwyntio ar yr hyn a ddymuna cynulleidfaoedd

Gwyddom fod cynulleidfaoedd am i'r BBC wario arian ar raglenni, felly rydym yn cefnogi ymrwymiad y Bwrdd Gweithredol i gynyddu cyfran y buddsoddiad mewn cynnwys a hefyd leihau gorbenion ar yr un pryd.

Ym mis Ionawr cychwynnwyd ar y broses o wneud arbedion sylweddol drwy ofyn i'r Bwrdd Gweithredol dorri'r gyllideb ar-lein 25% erbyn 2013, gan ganolbwyntio ar feysydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n helaeth na'u gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd. A dechreuwyd ar arolwg o bolisi syndicetio'r BBC, sy'n sail i'r ffordd y mae'r BBC yn darparu cynnwys ar lwyfannau eraill, er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael mynediad at gynnwys, ond bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd effeithlon.

Y llynedd cytunwyd ar ostyngiad o 25% ym mil cyflog uwch reolwyr erbyn diwedd 2011. Gwnaed cryn gynnydd yn ystod y flwyddyn tuag at y targed, drwy leihau nifer yr uwch swyddi a lleihau'r cyflog a delir am swyddi penodol.

### Olrhain cynnydd

Bob blwyddyn rydym yn comisiynu rhai astudiaethau penodol o werth am arian yn allanol, yn enwedig gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Dangosodd un fod y Bwrdd Gweithredol wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy leihau costau cynhyrchu ar ddramâu parhaus a chynnal eu safon ar yr un pryd. Cadarnhaodd ein gwaith hefyd fod prosesau newydd y Bwrdd Gweithredol ar gyfer caffael hawliau chwaraeon yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag dangosodd yr astudiaeth o fenter y cyfryngau digidol – prosiect technegol gyda'r nod o wneud cynyrchiadau'n fwy effeithlon – nad oedd camau cynnar y prosiect hwn a fydd yn para saith mlynedd yn cynnig gwerth da am arian. Mae camau eisoes wedi cael eu cymryd i unioni hyn a dylai'r prosiect eto i gyd gyflawni'r targedau o ran effeithlonrwydd a bennwyd ar ei gyfer erbyn iddo gael ei gwblhau yn 2017.

Dod yn fwyfwy pwysig y bydd diwylliant gwerth am arian yn y blynyddoedd sydd i ddod, o ystyried bod ffi'r drwydded y cytunwyd arni wedi'i rhewi eleni hyd at 2017. Ein gwaith ni fydd cefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod y BBC yn parhau i gynnig darpariaeth o'r safon uchel a ddymuna cynulleidfaoedd, a hynny mor effeithlon â phosibl.

Daeth astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddrama barhaus y BBC fel *Holby City* fod y costau cynhyrchu wedi gostwng tua 20% mewn termau real dros yr wyth mlynedd diwethaf.






# Gwybod beth rydych yn talu amdano

## Hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw

**Gwyddom fod ein cynulleidfaoedd am i'r BBC wario eu harian ar gynnwys, ac ar ddarparu'r cynnwys hwnnw mewn ffordd gyfleus. Ond wrth reswm mae darparu cynnwys o safon wych yn golygu llawer mwy na buddsoddi mewn rhaglenni, gwasanaethau a llwyfannau yn unig; mae llawer o gostau eraill yn gysylltiedig â rhedeg sefydliad fel y BBC. Er mwyn i dalwyr ffi'r drwydded fod yn ffyddiog bod y BBC yn gwario eu harian yn ddoeth yn hyn o beth - ar y pethau nad ydynt yn eu gweld nac yn eu clywed - mae'n rhaid i ni fod yn agored am ble yr aiff yr arian a beth yw cynlluniau'r BBC at y dyfodol.**

Eleni rydym wedi ei gwneud yn bosibl i dalwyr ffi'r drwydded graffu ar waith y BBC yn fwy nag erioed, drwy ein perthynas agos â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n cynnal astudiaethau gwerth am arian ar ein rhan. Rydym hefyd yn parhau i annog y Bwrdd Gweithredol i fod yn fwy agored ynglŷn â rhannu gwybodaeth, gan barchu cyfrinachedd angenrheidiol ar yr un pryd wrth gwrs.

### Cyflogau

Mae tâl pobl bob amser o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, a mwy nag erioed pan fo arian yn dynn. Gall aelodau'r cyhoedd asesu eu hunain p'un a ydynt yn cael gwerth o wariant y BBC ar dalent ar yr awyr ac ar y sgrîn ai peidio; eto i gyd, eleni, gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno adroddiad llawer mwy manwl ar dâl talent.

Mae cyflogau uwch reolwyr yn fater mwy dadleuol. Unwaith eto gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol fod yn fwy tryloyw eleni drwy gyhoeddi cyflog pob uwch reolwr, ynghyd ag esboniad clir o'r ffordd y mae'r BBC wedi'i drefnu, fel y gall pobl farnu eu hunain sut mae rheolwyr y BBC yn cynnig gwerth. Byddwn yn parhau i roi sylw i strwythur y BBC yn setliad newydd ffi'r drwydded.

### Deall dyfodol y BBC

Disgwylir i bob cwmni cyhoeddus egluro sut y bwriada sicrhau adenillion i'w gyfranddalwyr. Yn yr un modd, credwn y dylai'r BBC egluro ei strategaeth ar gyfer darparu rhaglenni a gwasanaethau i dalwyr ffi'r drwydded. Felly eleni, am y tro cyntaf, gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol gyhoeddi cynllun busnes. Yn ogystal â rhoi darlun cliriach i dalwyr ffi'r drwydded, bydd yn rhoi mwy o eglurdeb ynglŷn â chynlluniau'r BBC i eraill sy'n gweithio yn y cyfryngau.

Fodd bynnag, nid eitem i'w thicio mewn rhestr mo'r nod o fod yn agored ac yn dryloyw. Dylai fod yn rhan o ymddygiad ac agweddau a dderbynnir yn gyffredinol yn y BBC, a dyna pam rydym wedi penderfynu mai bod yn fwy agored a thryloyw fydd un o'r pedwar amcan strategol ar gyfer dyfodol y BBC.

Dros bob blwyddyn rydym yn ymgynghori ag amrywiaeth mawr o randdeiliaid i sicrhau y gallwn ystyried y rhychwant o safbwyntiau a geir, yn enwedig ymhlith talwyr ffi'r drwydded.



# Yr hyn a ddymuna talwyr ffi'r drwydded

## Gwasanaethu pob cynulleidfa

**Nod ffi'r drwydded yw sicrhau allbwn o safon dda, am ddim wrth ei dderbyn, sydd ar gael i bawb. Golyga hyn fod yn rhaid i'r BBC ddarparu peth cynnwys y mae pob cynulleidfa yn ei werthfawrogi ac y gellir ei asesu'n gyfleus.**

### Portreadu ein cynulleidfaoedd

Gwyddom, er bod y BBC yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan gynulleidfaoedd ledled y DU yn gyffredinol, ei fod yn mynd yn llai poblogaidd wrth fynd ymhellach oddi wrth Lundain. Hoffem fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn. Mae dwy agwedd ar ein gwaith o ran hyn: gwneud rhaglenni y tu allan i Lundain, lle mae'r BBC ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a bennwyd gennym; ac adlewyrchu cymeriad amrywiol y DU o fewn y rhaglenni eu hunain, sef rhywbeth y gwyddom sy'n bwysig iawn i'n cynulleidfaoedd.

Credwn fod cynnydd da wedi'i wneud ar bortreadu o'r fath eleni, gyda rhaglenni fel *Being Human* ac *Exile* yn dangos ymdeimlad gwirioneddol o le fel rhan annatod o'u straeon grymus. Yn ôl adborth gan y Cynghorau Cynulleidfa gwerthfawrogir hyn gan dalwyr ffi'r drwydded.

### Cael gafael ar gynnwys

Mae pob talwr ffi'r drwydded, lle bynnag y bo, yn disgwyl cael gafael ar y rhaglenni y mae'n dymuno eu gweld ar adeg sy'n gyfleus iddo. Ac mae niferoedd bythol gynyddol o lwyfannau a dyfeisiau y mae pobl yn disgwyl cael gafael ar gynnwys y BBC drwyddynt. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu'r nod i'r BBC o sicrhau bod pob cartref yn cael mynediad cyfleus at bob un o wasanaethau perthnasol y BBC, am ddim wrth eu derbyn. Golyga hyn fod yn rhaid i'r BBC fuddsoddi mewn technoleg newydd, wrth i lwyfannau ddatblygu ac eto wneud dewisiadau gofalus i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu'n deg a bod y BBC yn cadw ei brif ffocws ar fuddsoddi mewn cynnwys o safon dda.

Eleni, yn sgîl ein harolwg o'r gwasanaeth Gaeleg yn yr Alban, BBC ALBA, cymeradwywyd cynllun y Bwrdd Gweithredol i'w gynnig ar Freeview. Drwy hynny caiff llawer mwy o bobl wylio'r gwasanaeth. Er mwyn gwneud hyn bu'n rhaid tynnu rhai o wasanaethau radio'r BBC oddi ar Freeview, yn yr Alban yn unig, tra bo'r sianel deledu ar yr awyr. Nid oedd hwn yn benderfyniad hawdd ond mae'n enghraifft o'r dewisiadau anodd y mae'r BBC yn eu hwynebu o ran mynediad cynulleidfaoedd.

Eleni hefyd cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gynnig y BBC i gymryd rhan yn YouView, sef gwasanaeth teledu safonol agored dros y rhyngrwyd, a fydd yn rhoi mynediad at bob cynnwys ar alw drwy flwch pen set. Adolygwyd hefyd gynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i lansio Apps ffonau symudol ar gyfer newyddion, chwaraeon a BBC iPlayer. Er bod y cynigion yn rhoi ffordd newydd o gael gafael ar wasanaethau presennol y BBC i dalwyr ffi'r drwydded, penderfynwyd nad oeddent yn newid sylweddol i wasanaeth ac felly nad oedd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal prawf gwerth cyhoeddus.

Ymwelodd rhaglen ddogfen BBC ALBA *Ciobairean Mara* (Bugeiliaid y Môr) ag Eilean Garbh sef ynys arw ac anghysbell a'r un uchaf o blith Ynysoedd Shiant, oddi ar arfordir gorllewin yr Alban.

# O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH



Mae Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff llywodraethu'r BBC, ar wahân i'r Bwrdd Gweithredol sy'n rheoli gweithrediadau'r BBC o ddydd i ddydd. Ein rôl ni yw cynrychioli talwyr ffi'r drwydded a sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn darparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau o ansawdd uchel y mae'r cyhoedd eu heisiau, ynghyd â sicrhau bod y BBC yn atebol ac yn agored. Rydym hefyd yn diogelu annibyniaeth y BBC rhag dylanwad masnachol neu wleidyddol.

Yma ceir manylion am yr Ymddiriedolwyr a'u cydnabyddiaeth ac esboniad o sut rydym yn rhedeg yr Ymddiriedolaeth er budd holl dalwyr ffi'r drwydded.

Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, yr Arglwydd Patten o Barnes, yn sgwrsio gyda'r Is-Gadeirydd, Diane Coyle.

# Ymddiriedolwyr y BBC

## Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhan amser ac yn dod o amrywiol gefndiroedd, gan gynnig amrywiaeth mawr o brofiad i'r BBC.

## Cânt eu penodi gan y Frenhines ar gyngor gweinidogion yn dilyn proses benodi agored. Ymhlith yr Ymddiriedolwyr mae Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac Ymddiriedolwyr Cenedlaethol dros Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Yr Arglwydd Patten o Barnes, Cadeirydd
Fe'i penodwyd yn Gadeirydd o 1 Mai 2011.

Rolau eraill: Canghellor, Prifysgol Rhydychen; Cyd-Gadeirydd, UK India Round Table; cyfarwyddwr anweithredol, Russell Reynolds Associates; aelod o Fwrdd Cynghori Rhyngwladol, BP; aelod o Banel Cynghori Rhanddeiliaid, EDF Energy; aelod o Fwrdd Cynghori Ewropeaidd, Bridgepoint.

### Diane Coyle OBE, Is-Gadeirydd
Fe'i penodwyd yn Is-Gadeirydd o 1 Mai 2011.

Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cymeradwyo Strategol; arweiniodd yr arolygon o BBC One, Two a Four, a BBC Red Button. Rolau eraill: Cyfarwyddwr, Enlightenment Economics; aelod o Banel Cynghori Rhanddeiliaid, EDF Energy.

### Richard Ayre
Ymunodd â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Awst 2010.

Rolau eraill: Dyfarnwr Rhyddid Gwybodaeth, Cymdeithas y Gyfraith; aelod o'r Pwyllgor Cynghori, Sense About Science.

### Anthony Fry
Y prif Ymddiriedolwr ar gyfer arolygon masnachu teg a gwerth am arian. Rolau eraill: Cadeirydd, Espirito Santo UK, Dairy Crest, a CALA; cyfarwyddwr anweithredol, Control Risks, Twig Rights Ltd.

### Alison Hastings
Yr Ymddiriedolwr dros Loegr (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Lloegr); mae'n cadeirio'r Pwyllgor Safonau Golygyddol a'r Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa. Rolau eraill: Is-lywydd, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain; cynghorydd yn ôl galw a hyfforddwr, Comisiwn Cwynion y Wasg.

### Rotha Johnston CBE
Yr Ymddiriedolwr dros Ogledd Iwerddon (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon); mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth; y prif Ymddiriedolwr ar faterion eiddo. Rolau eraill: partner, Johnston Partnership; cyfarwyddwr anweithredol, Allied Irish Bank (UK) plc; dirprwy Ganghellor, Queen's University, Belfast.

### David Liddiment
Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad; arweiniodd arolwg yr Ymddiriedolaeth o BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 7. Rolau eraill: cyfarwyddwr anweithredol, All3Media; aelod cyswllt, Old Vic Theatre Company; cadeirydd, Hepworth Wakefield Gallery.

### Bill Matthews
Ymunodd â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Ionawr 2011.

Yr Ymddiriedolwr dros yr Alban (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa yr Alban). Rolau eraill: Cyfarwyddwr, M2M2 Limited; cadeirydd, NHS National Services Scotland; cyfarwyddwr anweithredol, Security Industry Authority, Scottish Police Services Authority.

### Mehmuda Mian
Mae'n cadeirio'r Panel Apeliadau Cyffredinol; y prif Ymddiriedolwr ar gyfer materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rolau eraill: cyfarwyddwr anweithredol, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol; cyfarwyddwr cyswllt, Lokahi Foundation.

### Elan Closs Stephens CBE
Ymunodd â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Tachwedd 2010.

Yr Ymddiriedolwr dros Gymru (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru). Rolau eraill: Athro, Prifysgol Aberystwyth; cyfarwyddwr anweithredol, y Bwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol a chadeirydd, Llywodraethu Corfforaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru; cyfarwyddwr anweithredol, Imax Waterloo ar gyfer BFI.

Mae hyn yn adlewyrchu aelodaeth yr Ymddiriedolaeth ar 23 Mehefin 2011. Roedd dau le gwag ar yr Ymddiriedolaeth ar yr adeg hon.

Mae cyfnodau Syr Michael Lyons (Cadeirydd), Chitra Bharucha MBE (Is-Gadeirydd) a'r Ymddiriedolwyr Janet Lewis-Jones, Jeremy Peat a Richard Tait CBE wedi dod i ben ers cyhoeddi ein Harolwg Blynyddol diwethaf. Rhoddodd y Fonesig Patricia Hodgson DBE y gorau i'w haelodaeth o'r Ymddiriedolaeth ar 6 Mehefin 2011.



Yr Arglwydd Patten o Barnes
Cadeirydd



Diane Coyle OBE
Is-Gadeirydd



Richard Ayre



Anthony Fry



Alison Hastings
Lloegr



Rotha Johnston CBE
Gogledd Iwerddon



David Liddiment



Bill Matthews
Yr Alban



Mehmuda Mian



Elan Closs Stephens CBE
Cymru

# Llywodraethu

Mae'r hyn a wnawn a sut yr awn ati yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae ein prosesau mor agored a thryloyw â phosibl. Yn ogystal â'r Adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi adroddiadau a chanfyddiadau yn llawn ar ein gwefan. Mae Uned yr Ymddiriedolaeth, sef staff proffesiynol sy'n rhoi cyngor annibynnol i ni ar ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, yn ein cynorthwyo i wneud ein gwaith.

## Sut y gweithredwn

Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth yn Siarter Frenhinol y BBC a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. I ategu'r dogfennau hyn rydym wedi llunio cyfres o brotocolau, sy'n rhoi mwy o fanylion am y ffordd yr awn ati i gyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn. Lle bo angen, maent hefyd yn egluro dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r holl ddogfennau hyn ar ein gwefan.

Ymdrinnir â materion busnes beunyddiol mewn cyfarfodydd misol a fynychir gan bob Ymddiriedolwr. Yn y cyfarfodydd hyn gwnawn benderfyniadau sy'n ymwneud â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ac ystyriwn gynigion gan y Bwrdd Gweithredol. Cyhoeddir cofnodion ein cyfarfodydd misol ar ein gwefan.

## Ein cynllun gwaith

Bob blwyddyn cyhoeddwn gynllun gwaith blynyddol. Cawn fewnbwn gan y Cynghorau Cynulleidfa ar y materion sydd o bwys i gynulleidfaoedd er mwyn ein helpu i bennu'r blaenoriaethau a ddylai ymddangos yn ein cynllun. Ceir crynodeb o gynllun gwaith 2011/12 ar dudalen 1-42, ac mae'r cynllun llawn ar ein gwefan.

## Bod yn agored ac yn dryloyw

Cymerwn y ddyletswydd sydd arnom i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, a nodir yn y Siarter Frenhinol, o ddifrif – gwelwn hyn fel rhan o'n hymrwymiad i dalwyr ffi'r drwydded. Pan fydd angen gwneud gwaith pwysig, cynhaliwn ymgynghoriadau cyhoeddus a gofynnwn yn benodol am safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded, y diwydiant a'r rhai y bydd cynnig yn effeithio arnynt. Defnyddiwn ein gwefan yn ogystal â chyfryngau eraill i annog pobl i ymateb, gan sicrhau bod digon o gyfle i bobl leisio barn.

Ar ôl i ni wneud penderfyniad cyhoeddwn ein casgliadau yn glir ynghyd â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i'w cyrraedd. Eglurwn ein penderfyniadau i dalwyr ffi'r drwydded, y diwydiant a'r rhai o fewn y BBC y gallant effeithio arnynt. Rydym hefyd yn cyhoeddi costau ein gwaith pwysig.

## Uned yr Ymddiriedolaeth

Mae Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol i ni, yn ein cynorthwyo i wneud ein gwaith, gan alw ar arbenigwyr allanol lle y bo angen. Mae'r Uned yn cynnwys staff y BBC sy'n annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol ac sy'n uniongyrchol atebol i ni. Mae'n cynnwys staff proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys llywodraethu corfforaethol, datblygu polisi, ymchwil cynulleidfa, dadansoddi ariannol a pherfformiad, economeg a'r gyfraith. Mae'r Uned yn ein cynghori ar ein dyletswyddau, yn rheoli swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth ac yn cyflwyno asesiadau annibynnol o gynigion y Bwrdd Gweithredol i'r Ymddiriedolaeth. Lleolir y rhan fwyaf o staff yr Uned yn Llundain; tra bod eraill yn gweithio mewn swyddfeydd yn Belfast, Birmingham, Caerdydd a Glasgow.

## Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth

Gwnawn gryn dipyn o'n gwaith drwy bwyllgorau, a all wneud penderfyniadau penodol ar ran yr Ymddiriedolaeth gyfan. Dangosir aelodau o bob Pwyllgor a'u presenoldeb yn ystod 2010/11 yn y tabl ar dudalen 1-34. Mae cylch gorchwyl pob un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ar ein gwefan.

### Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad
Cadeirydd: David Liddiment

Y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad (APC) sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad holl wasanaethau cyhoeddus y BBC ar ran yr Ymddiriedolaeth ac mae'n monitro'r ffordd y mae'r BBC (gwasanaethau yn y DU a World Service) yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus fel yr amlinellir yn y Siarter Frenhinol.

Mae'r APC yn asesu perfformiad gwasanaethau'r BBC yn erbyn y meini prawf a nodir yn y trwyddedau gwasanaeth, gan ddefnyddio data a ddarperir gan y Bwrdd Gweithredol a dadansoddiad annibynnol a gynhelir gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

Un o gyfrifoldebau allweddol yr APC yw goruchwylio rhaglen adolygu gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu pob un o wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU unwaith bob pum mlynedd. Cyfeirir at arolygon gwasanaeth eleni ar wahân ar dudalennau 1-10 i 1-14.

### Pwyllgor Safonau Golygyddol

Cadeirydd (o fis Awst 2010): Alison Hastings
Cadeirydd (hyd at fis Gorffennaf 2010): Richard Tait

Y Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC), gan weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth, sy'n gyfrifol am bennu safonau golygyddol y BBC ac asesu holl wasanaethau'r BBC o ran cydymffurfio â'r safonau hyn.

Mae safonau golygyddol yn rhan gynhenid o Ganllawiau Golygyddol y BBC y mae'r ESC yn eu comisiynu gan y Bwrdd Gweithredol. Yr ESC yw'r corff apêl terfynol o fewn y BBC ar gyfer penderfynu a ddilynwyd y Canllawiau hyn.

Mae'r ESC hefyd yn rheoli rhaglen adolygu natur ddiduedd yr Ymddiriedolaeth.

### Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth

Cadeirydd: Rotha Johnston

Y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (FCC) sy'n gyfrifol am gyllid, gwerth am arian a chydymffurfiaeth, ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r FCC yn craffu ar gyllideb flynyddol y BBC a gyflwynir gan y Bwrdd Gweithredol cyn i'r Ymddiriedolaeth gyfan ei gweld; mae'n rhaid i'r pwyllgor hwn gymeradwyo unrhyw fuddsoddiad ariannol mawr. Mae'r FCC hefyd yn rheoli rhaglen astudiaethau gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod argymhellion yr arolygon yn cael eu gweithredu gan y Bwrdd Gweithredol.

Yr FCC sy'n goruchwylio swyddogaeth gydymffurfio'r Bwrdd Gweithredol (ac eithrio cydymffurfiaeth olygyddol a oruchwylir gan yr ESC) ac mae'n monitro rheolaethau mewnol a phrosesau rheoli risg. Mae hefyd yn ystyried apeliadau ynghylch masnachu teg, TV Licensing a'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

### Pwyllgor Cymeradwyo Strategol

Cadeirydd: Diane Coyle

Mae'r Pwyllgor Cymeradwyo Strategol (SAC) yn ystyried cynigion y Bwrdd Gweithredol, yn cynnwys cynigion am wasanaethau newydd neu newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes, heblaw am y rhai a gynigir fel rhan o arolwg gwasanaeth (a ystyrir gan yr APC). Mae'r SAC yn penderfynu a oes angen cynnal prawf gwerth cyhoeddus (PVT) ac yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn unol â hynny.

Mae'r SAC yn rheoli unrhyw PVT neu ystyriaeth arall o gynnig gan y Bwrdd Gweithredol ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar ganlyniadau posibl.

Mae'r SAC hefyd yn goruchwylio strategaeth fasnachol y BBC ac unrhyw gynlluniau busnes masnachol manwl a gynigir i'r Ymddiriedolaeth i'w cymeradwyo.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau

Cadeirydd (o fis Mai 2011): Yr Arglwydd Patten
Cadeirydd (o fis Tachwedd 2010 hyd at fis Ebrill 2011): Syr Michael Lyons
Cadeirydd (hyd at fis Hydref 2010): Chitra Bharucha

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (RAC) sy'n gyfrifol am reoli cyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r RAC yn goruchwylio strategaeth cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar gyflog a buddiannau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn unig sy'n gyfrifol am bennu cyflog a buddiannau'r cyfarwyddwyr gweithredol.

### Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa

Cadeirydd (o fis Ionawr 2011): Alison Hastings
Cadeirydd Dros Dro (o fis Tachwedd hyd at fis Rhagfyr 2010): Jeremy Peat
Cadeirydd (hyd at fis Hydref 2010): Chitra Bharucha

Mae'r Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa (ACC) yn dwyn ynghyd y pedwar Ymddiriedolwr cenedlaethol i oruchwylio a chydgysylltu cyfraniadau Cynghorau Cynulleidfa'r BBC fel cyrff ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth. Ei rôl yw sicrhau bod y materion a nodir gan y Cynghorau Cynulleidfa yn cael sylw priodol gan yr Ymddiriedolaeth a bod y Cynghorau'n gweithio o fewn eu cylchoedd gwaith. Mae'r ACC hefyd yn cymeradwyo aelodau'r Cynghorau Cynulleidfa.

### Panel Apeliadau Cyffredinol

Ni cheir aelodau penodol. Mae'r panel fel arfer yn cynnwys dau Ymddiriedolwr ac fe'i cadeiriwyd gan yr Is-Gadeirydd (Chitra Bharucha) hyd at fis Hydref 2010 a gan Mehmuda Mian o fis Tachwedd 2010.

Mae'r Panel Apeliadau Cyffredinol hefyd yn un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth, er mai dim ond pan fydd angen gwrando cwynion ac apeliadau ar ran yr Ymddiriedolaeth, nad ydynt yn rhan o un o weithdrefnau penodol y BBC, y mae'n cwrdd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau cwyno'r BBC ar ein gwefan.

## Presenoldeb yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd

Dangosir presenoldeb yr Ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011 isod. Cyhoeddir calendr o gyfarfodydd llawn yr Ymddiriedolaeth a'u cofnodion, a'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor, ar ein gwefan.

| | Ymddiriedolaeth | Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad (APC) | Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC) | Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (FCC) | Pwyllgor Cymeradwyo Strategol (SAC) | Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (RAC) | Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa (ACC) | Panel Apeliadau Cyffredinol[1] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 19 | 11 | 15 | 15 | 10 | 4 | 5 | 5 |
| **Cadeirydd** | | | | | | | | |
| Syr Michael Lyons | 18/19 | ± | ± | ± | ± | 4/4* | ± | ± |
| **Is-Gadeirydd** | | | | | | | | |
| Chitra Bharucha | 12/13 | ± | 7/8 | ± | ± | 2/2* | 3/3* | 4/4* |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | | | |
| Alison Hastings (Lloegr) | 18/19 | 11/11 | 15/15* | ± | ± | ± | 5/5* | ± |
| Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) | 17/19 | ± | ± | 15/15* | 10/10 | 2/2 | 5/5 | ± |
| Janet Lewis-Jones (Cymru) | 13/13 | ± | ± | 7/7 | ± | 2/2 | 3/3 | 1/1 |
| Bill Matthews (Yr Alban) | 3/3 | ± | ± | 4/5 | 3/3 | ± | 1/1 | ± |
| Jeremy Peat (Yr Alban) | 15/16[2] | ± | ± | 8/10[3] | 7/7 | ± | 4/4* | ± |
| Elan Closs Stephens (Cymru) | 6/6 | ± | 6/7 | 8/8 | ± | ± | 2/2 | 1/1 |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | | | |
| Richard Ayre | 12/12 | ± | 9/9 | ± | 7/7 | ± | ± | ± |
| Diane Coyle | 17/19[4] | 11/11 | ± | ± | 10/10* | ± | ± | 2/2 |
| Anthony Fry | 17/19 | ± | 9/15 | 12/15 | – | 4/4 | ± | ± |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 19/19 | 11/11 | ± | 13/15[5] | 10/10 | ± | ± | ± |
| David Liddiment | 17/19 | 11/11* | 15/15 | ± | ± | ± | ± | 1/1 |
| Mehmuda Mian | 17/19 | 8/11 | 11/15 | ± | ± | ± | ± | 2/2* |
| Richard Tait | 6/7 | ± | 6/6* | ± | ± | ± | ± | ± |

[1] Nid yw'r Panel Apeliadau Cyffredinol yn cynnwys yr un aelodau yn gyson.
[2] Ni fynychodd Jeremy Peat un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i wrthdaro buddiannau posibl.
[3] Ni fynychodd Jeremy Peat ddau o gyfarfodydd yr FCC o ganlyniad i wrthdaro buddiannau posibl.
[4] Ni fynychodd Diane Coyle un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i wrthdaro buddiannau posibl.
[5] Ni fynychodd y Fonesig Patricia Hodgson ddau o gyfarfodydd yr FCC o ganlyniad i wrthdaro buddiannau posibl.
* Yn dynodi Cadeirydd y pwyllgor yn ystod 2010/11.
± Yn dynodi nad yw Ymddiriedolwr yn aelod o'r Pwyllgor a restrir.

## Newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau yn ystod 2010/11

**Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC):** Alison Hastings (Cadeirydd o fis Awst 2010); Richard Tait (Cadeirydd hyd at fis Gorffennaf 2010); Elan Closs Stephens (o fis Tachwedd 2010); Chitra Bharucha (hyd at fis Hydref 2010).

**Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (FCC):** Bill Matthews (o fis Ionawr 2011); Elan Closs Stephens (o fis Tachwedd 2010); Janet Lewis-Jones (hyd at fis Hydref 2010); Jeremy Peat (hyd at fis Rhagfyr 2010).

**Pwyllgor Cymeradwyo Strategol (SAC):** Richard Ayre (o fis Awst 2010); Bill Matthews (o fis Ionawr 2011); Jeremy Peat (hyd at fis Rhagfyr 2010); David Liddiment (yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yr APC, a dim ond mewn perthynas â chymeradwyo gwasanaethau).

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (RAC):** Yr Arglwydd Patten (Cadeirydd o fis Mai 2011); Syr Michael Lyons (Cadeirydd o fis Tachwedd 2010 hyd at fis Ebrill 2011); Chitra Bharucha (Cadeirydd hyd at fis Hydref 2010); Diane Coyle (o fis Mai 2011); Janet Lewis-Jones (hyd at fis Hydref 2010).

**Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa (ACC):** Alison Hastings (yr Ymddiriedolwr dros Loegr; Cadeirydd o fis Ionawr 2011); Bill Matthews (yr Ymddiriedolwr dros yr Alban, o fis Ionawr 2011); Elan Closs Stephens (yr Ymddiriedolwr dros Gymru, o fis Tachwedd 2010); Chitra Bharucha (Cadeirydd hyd at fis Hydref 2010); Jeremy Peat (yr Ymddiriedolwr dros yr Alban, hyd at fis Rhagfyr 2010; Cadeirydd dros dro o fis Tachwedd hyd at fis Rhagfyr 2010).

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa a phwyllgorau eraill

Mae'r Siarter Frenhinol yn sefydlu Cynghorau Cynulleidfa ym mhob un o'r gwledydd i gynghori'r Ymddiriedolaeth ar y gwaith o gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus a pha mor dda y mae'r BBC yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded mewn gwahanol rannau o'r DU.

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol perthnasol sy'n cadeirio'r Cynghorau Cynulleidfa. Roedd presenoldeb yr Ymddiriedolwyr Cenedlaethol yng nghyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa ar gyfer 2010/11 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Alison Hastings | 7/7 |
| Rotha Johnston | 9/9 |
| Janet Lewis-Jones | 5/5 |
| Bill Matthews | 2/2 |
| Jeremy Peat | 7/7 |
| Elan Closs Stephens | 5/5 |

Jeremy Peat yw cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth Pensiwn y BBC Cyf, ymddiriedolwr corfforaethol Cynllun Pensiwn y BBC o hyd. Ef hefyd yw cadeirydd Pwyllgor y Cyfarwyddwyr, sy'n trafod materion ariannol, a'r is-bwyllgor Llywodraethu. Caiff gydnabyddiaeth ar wahân am y rôl hon. Ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn y BBC.

Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth banel apeliadau ad hoc unwaith rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011. Ar gyfer y cyfarfod hwn, aelodau'r pwyllgor oedd: Alison Hastings, Janet Lewis-Jones, David Liddiment, Jeremy Peat, a Richard Tait.

## Newidiadau i'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn

Daeth cyfnod Richard Tait fel Ymddiriedolwr i ben ar 31 Gorffennaf 2010.

Dechreuodd cyfnod Richard Ayre fel Ymddiriedolwr ar 1 Awst 2010.

Daeth cyfnod Chitra Bharucha fel Is-Gadeirydd i ben ar 31 Hydref 2010.

Daeth cyfnod Janet Lewis-Jones fel yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru i ben ar 31 Hydref 2010.

Dechreuodd cyfnod Elan Closs Stephens fel yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru ar 1 Tachwedd 2010.

Daeth cyfnod Jeremy Peat fel yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros yr Alban i ben ar 31 Rhagfyr 2010.

Dechreuodd cyfnod Bill Matthews fel yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros yr Alban ar 1 Ionawr 2011.

## Asesu ein perfformiad ein hunain

Mae gennym ymrwymiad i adolygu ein perfformiad, gan gynnwys perfformiad pob pwyllgor, bob blwyddyn, a chrynhown ein canfyddiadau yn yr Adroddiad Blynyddol. Eleni gwnaethom gynnal yr arolwg hwn yn fewnol, gyda chymorth Uned yr Ymddiriedolaeth. Ystyriwyd y canlyniadau yng nghyfarfod llawn yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal ag ym mhob pwyllgor.

Eleni gwnaethom ganolbwyntio ar ddatblygu strategaeth newydd y BBC, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, a'n rhaglen barhaus o arolygon o wasanaethau. Fel rhan o'r arolwg o'r strategaeth a thrwy ein harolygon o wasanaethau penodol y BBC, credwn ein bod wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â rhai materion sy'n peri pryder mawr i dalwyr ffi'r drwydded. Rydym wedi dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif ac roedd ein penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn y mae cynulleidfaoedd wedi'i ddweud wrthym, gan ystyried barn cynrychiolwyr y diwydiant a staff y BBC. Byddwn yn parhau i bennu'r strategaeth ar gyfer y BBC, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o flaenoriaethau cynulleidfaoedd.

Credwn ein bod yn gwneud penderfyniadau'n effeithiol drwy strwythur cyfarfodydd llawn a phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth a'n bod yn ymdrin â llif busnes yn effeithlon.

Rydym wedi nodi nifer o feysydd y mae angen canolbwyntio arnynt ymhellach yn y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o oruchwyliaeth o faterion strategol a chyllidebol, gan sicrhau bod y BBC yn sicrhau gwerth am arian; a chyfathrebu canlyniadau ein gwaith yn effeithiol o fewn y BBC ac yn allanol.

## Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

### Ffioedd

Caiff ein ffioedd fel Ymddiriedolwyr eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'u hadolygu bob blwyddyn gan ei adran. Ym mis Medi 2010, cymerodd yr Ymddiriedolwyr doriad cyflog gwirfoddol o 8.3% (sy'n cyfateb i fis o gyflog), fel y gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac aelodau eraill y Bwrdd Gweithredol. Bydd y cyfraddau is yn weithredol hyd at 31 Awst 2012 a chânt eu hadlewyrchu yn y tabl drosodd. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cael tâl am derfynu contract nac iawndal arall am golli swydd.

### Treuliau

Cawn ein had-dalu am dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, sy'n cynnwys teithio, llety, prydau bwyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith a lletygarwch. Caiff y treuliau rydym yn gymwys i'w hawlio eu llywodraethu gan God Ymarfer yr Ymddiriedolaeth, a gyhoeddir ar ein gwefan. Bob chwe mis rydym yn cyhoeddi rhestr lawn o'r holl dreuliau yr aed iddynt gan bob Ymddiriedolwr yn ogystal â'r gwasanaethau a archebwyd yn ganolog ar gyfer Ymddiriedolwyr gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

Caiff rhai o'n treuliau a'n gwasanaethau cymorth eu dosbarthu fel buddiannau trethadwy gan Gyllid a Thollau EM a chyhoeddir y ffigur hwn yn y tabl cydnabyddiaeth; caiff unrhyw dreth sy'n deillio o dreuliau yr eir iddynt ei thalu gan y BBC.

### Buddiannau'r Cadeirydd

O dan delerau ei benodiad, roedd Syr Michael Lyons (Cadeirydd hyd at 30 Ebrill 2011) yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn gyda buddiannau sy'n cyfateb i rai Cynllun Pensiwn y BBC. Dewisodd Syr Michael beidio â chymryd rhan yn y cynllun hwn, felly ni wnaeth y BBC unrhyw gyfraniadau pensiwn ar ei gyfer. Yn hytrach, cafodd aswiriant bywyd ar lefel sy'n debyg i aelodau'r cynllun pensiwn. Cafodd hefyd yswiriant meddygol preifat sydd ar yr un lefel ag uwch reolwyr y BBC.

## Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn isod.

| | Ffioedd £000 | Buddiannau trethadwy £000 | **Cyfanswm 2010/11 £000**[1] | Cyfanswm 2009/10 £000 | Cyfnod penodi: Dyddiad dechrau | Cyfnod penodi: Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd ac Is-Gadeirydd | | | | | | |
| Syr Michael Lyons[2] | 136 | 48 | **184** | 204 | 1 Mai 07 | 30 Ebr 11 |
| Chitra Bharucha[3]* | 44 | – | **44** | 78 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Ymmdiriedolwyr Cenedlaethol | | | | | | |
| Alison Hastings* | 39 | – | **39** | 41 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| Rotha Johnston | 39 | – | **39** | 41 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 12 |
| Janet Lewis-Jones[3] | 23 | – | **23** | 41 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Bill Matthews[4] | 9 | – | **9** | – | 1 Ion 11 | 31 Rhag 14 |
| Jeremy Peat[3] | 30 | – | **30** | 41 | 1 Ion 06 | 31 Rhag 10 |
| Elan Closs Stephens[4] | 16 | – | **16** | – | 1 Tach 10 | 31 Hyd 14 |
| Ymddiriedolwyr | | | | | | |
| Diane Coyle[5]* | 34 | – | **34** | 36 | 1 Tach 06 | 30 Ebr 15 |
| Richard Ayre[4] | 22 | – | **22** | – | 1 Awst 10 | 31 Gorff 14 |
| Anthony Fry | 34 | – | **34** | 36 | 1 Tach 08 | 31 Hyd 12 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 34 | – | **34** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| David Liddiment | 34 | – | **34** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| Mehmuda Mian | 34 | – | **34** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 12 |
| Richard Tait[3] | 12 | – | **12** | 36 | 1 Awst 04 | 31 Gorff 10 |
| Cyfanswm | 540 | 48 | **588** | 662 | | |

[1] Fel y nodwyd uchod, cymerodd yr Ymddiriedolwyr doriad cyflog gwirfoddol o 8.3%, fel y gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Gweithredol, ym mis Medi 2010. Felly mae'r ffioedd ar gyfer 2010/11 yn is na'r ffioedd ar gyfer 2009/10.
[2] Mae'r ffigur uwch ar gyfer buddiannau trethadwy Syr Michael Lyons yn adlewyrchu'r ffaith bod ei swyddfa yn Llundain a'i fod ef yn byw yn Birmingham, felly cafodd ei dreuliau teithio i Lundain a llety pan fyddai yn Llundain ar gyfer busnes y BBC eu cyfrif yn fuddiant trethadwy. Cafodd Syr Michael Lyons hefyd aswiriant bywyd ac yswiriant meddygol preifat sy'n costio £5,466 a £1,339 yn y drefn honno ar gyfer 2010/11 (2009/10: £4,817 a £2,398).
[3] Daeth penodiadau Chitra Bharucha, Janet Lewis-Jones, Jeremy Peat a Richard Tait i ben ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol; yn unol â hynny dim ond ar gyfer y cyfnod yn eu swyddi y mae eu ffioedd yn berthnasol ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.
[4] Dechreuodd penodiadau Bill Matthews, Elan Closs Stephens a Richard Ayre ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol; yn unol â hynny, dim ond ar gyfer y cyfnod yn eu swyddi y mae eu ffioedd yn berthnasol ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.
[5] Penodwyd Diane Coyle yn Is-Gadeirydd ar 1 Mai 2011 a bydd ei chyfnod yn rhedeg hyd at 30 Ebrill 2015.

* Roedd gan yr holl Ymddiriedolwyr hyn fuddiannau trethadwy a oedd yn llai na £500 ac o ganlyniad fe'u talgrynnwyd i ddim. Hawliodd yr Ymddiriedolwyr hyn gyfanswm o £522.36.

Heblaw'r Cadeirydd, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC na chael yswiriant meddygol preifat. Roedd Syr Michael Lyons yn defnyddio un o yrwyr a cheir y BBC yn rhan-amser pan yn gweithio yn Llundain ar fusnes y BBC.

Nid yw'r Arglwydd Patten yn gymwys i gael unrhyw fuddiannau ac eithrio ei ffi, ac mae wedi dewis peidio â defnyddio un o yrwyr y BBC.

### Cofrestr buddiannau

Mae ein Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw a chyhoeddi cofrestr o'r holl fuddiannau allanol y gellid ystyried eu bod yn effeithio ar ein gallu i gyflawni dyletswyddau un o Ymddiriedolwyr y BBC. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys datganiadau o bob swydd gyflogedig, swydd cyfarwyddwr a swydd wirfoddol yn ogystal â buddiannau aelodau agos o'r teulu, os yw'n berthnasol. Mae cofrestr buddiannau'r Ymddiriedolaeth ar gael ar ein gwefan.

## Costau rhedeg yr Ymddiriedolaeth

Dair blynedd yn ôl, gwnaethom ymrwymo i gadw gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth o dan 0.35% o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn eto, gyda gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth yn cyfateb i 0.31% o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU – (2009/10: 0.30%).

Mewn termau absoliwt mae cyfanswm ein gwariant, yn cynnwys y ffioedd sy'n daladwy i Ofcom, yn parhau i fod yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn. Roedd y gostyngiad yn ffioedd rheoleiddio Ofcom yn gyfraniad a groesawyd o ran rheoli costau'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag rydym hefyd wedi cymryd ein camau ein hunain i ailstrwythuro'r timau yn Uned yr Ymddiriedolaeth i wella effeithlonrwydd a rhoi mwy o ffocws i'n gweithgarwch. Arweiniodd hyn at gostau ailstrwythuro ar y pryd ond bydd y bil cyflogau y byddwn yn ei dalu yn llai o hyn ymlaen.

### Gwariant cymharol yr Ymddiriedolaeth

| Blwyddyn ariannol | Gwariant yr Ymddiriedolaeth (heb gynnwys gwariant Ofcom) fel % o wariant UK PSB |
|---|---|
| 2007/08 | 0.34% |
| 2008/09 | 0.31% |
| 2009/10 | 0.30% |
| 2010/11 | **0.31%*** |

* 0.30% ac eithrio'r costau ailstrwythuro eithriadol.

### Datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth

| | Nodyn | **2010/11 £000** | 2009/10 £000 |
|---|---|---|---|
| Costau cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1 | **651** | 730 |
| Costau staff | 2 | **4,586** | 4,749 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **5,097** | 5,023 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth cyn costau ailstrwythuro | | **10,334** | 10,502 |
| Costau ailstrwythuro | 4 | **461** | – |
| Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth | 5, 6 | **10,795** | 10,502 |
| | | **2010/11 £000** | 2009/10 £000 |
| Ffioedd rheoleiddio Ofcom | 7 | **3,187** | 3,521 |
| Ffioedd MIA Ofcom | 8 | **4** | (117) |
| Cyfanswm ffioedd Ofcom i'w talu gan yr Ymddiriedolaeth | | **3,191** | 3,404 |
| Cyfanswm gwariant yr Ymddiriedolaeth | | **13,986** | 13,906 |

1 Dangosir cydnabyddiaeth pob Ymddiriedolwr yn y tabl gyferbyn. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn cynnwys ffioedd, buddiannau trethadwy a chostau nawdd cymdeithasol yr Ymddiriedolwyr.
2 Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.
3 Mae costau gweithredu yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau megis gwaith ymchwil, cyngor cyfreithiol, gwasanaethau cynghori arbenigol eraill a gweithgareddau ymgynghori a digwyddiadau rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth.
4 Deilliodd y gwariant ar ailstrwythuro yn 2010/11 o broses ad-drefnu staff Uned yr Ymddiriedolaeth oedd â'r nod o sicrhau y gellir cyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth yn well ynghyd â gwella effeithlonrwydd gweithrediadau Uned yr Ymddiriedolaeth.
5 Mae hyn yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau a rennir a ddarparwyd gan wasanaethau cyhoeddus y BBC. Ymhlith y rhain roedd darparu eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwasanaethau gwybodaeth.
6 O wariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae £1,192,000 yn ymwneud â gwariant ar ein gweithgareddau yn y pedair gwlad, sydd yn bennaf yn cwmpasu cymorth i'r pedwar Cyngor Cynulleidfa cenedlaethol a'r 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol (2009/10: £1,320,000).
7 Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio rhwng y BBC a'r sianelau masnachol a sianelau darlledu cyhoeddus eraill yn y DU. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am gyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw.
8 Mae ffioedd Asesu'r Effaith ar y Farchnad (MIA) Ofcom yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom wrth gynnal MIA o'r profion gwerth cyhoeddus a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnod dan sylw. Ni wnaed unrhyw waith MIA yn ystod 2009/10 na 2010/11. Yn ystod 2009/10 adolygodd Ofcom ei gostau ac ad-dalodd rai ffioedd blaenorol a godwyd am waith MIA i'r BBC.

### Pobl yr Ymddiriedolaeth

| | **Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn 2010/11** | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn 2009/10 |
|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr (nifer) | **11.6** | 12.0 |
| Staff Uned yr Ymddiriedolaeth (EFT[1,2]) | **68.6** | 68.1 |

1 Ystyr EFT yw nifer cyfwerth ag amser llawn.
2 Staff Uned yr Ymddiriedolaeth yw'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Uned yr Ymddiriedolaeth. O'r rhain, mae 18.3 wedi'u lleoli y tu allan i Lundain ac yn hwyluso'r gwaith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth yn y pedair gwlad, Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr (2009/10: 18.7).

O fewn poblogaeth staff Uned yr Ymddiriedolaeth, daw 13% o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, mae 7% yn anabl ac mae 67% yn ferched (2009/10: 14%, 7% a 68% yn y drefn honno).

## Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr

Nicholas Kroll, y Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth y BBC, yw prif swyddog yr Ymddiriedolaeth fel y nodir yn y Siarter Frenhinol. Ef yw prif gynghorydd yr Ymddiriedolaeth a phrif weithredwr Uned yr Ymddiriedolaeth. Ei gyflog sylfaenol ar gyfer 2010/11 oedd £238,680 (2009/10: £238,680) a chyfanswm ei enillion hyd at 31 Mawrth 2011 oedd £281,004 (2009/10: £282,609). Mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y BBC.

Mae gan Uned yr Ymddiriedolaeth 10 uwch reolwr yn ogystal â'r Cyfarwyddwr, i lawr o 13 yn 2009/10 gan fod yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi ceisio lleihau nifer ei huwch reolwyr a'r bil cyflogau y mae'n ei dalu yn unol â gweddill y BBC.

Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn rhoi dadansoddiad o nifer uwch reolwyr Uned yr Ymddiriedolaeth wedi'i rhannu yn fandiau cyflog fesul £5,000.

### Rheoliadau adroddiadau

Mae'r BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 2002 ynghyd â rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ond, lle y bo'n berthnasol, rydym wedi llunio'r adroddiad hwn fel petai'r gofynion hynny'n gymwys. Caiff yr adran ar gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ei harchwilio.

## Adroddiad KPMG LLP i Ymddiriedolaeth y BBC

Yn unol â thelerau ein llythyr penodi dyddiedig 3 Mehefin 2008, rydym wedi archwilio'r datganiad o wariant uchod ('datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a baratowyd, yn unol â gofynion Siarter Frenhinol y BBC dyddiedig Hydref 2006, gan yr Ymddiriedolwyr a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdano. Paratowyd datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolwyr gan gymhwyso gofynion cydnabod a mesur Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein llythyr penodi, yw ffurfio barn annibynnol, ar sail y gwaith a wnaed, a chyflwyno ein barn i'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd ein hastudiaeth mor fanwl ag archwiliad o gryn dipyn.

Paratowyd ein hadroddiad i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Siarter Frenhinol yn unig. Cynlluniwyd ein hadroddiad i fodloni'r gofynion y cytunwyd arnynt â'r Ymddiriedolaeth a nodweddion arbennig ein penodiad a bennwyd gan anghenion yr Ymddiriedolaeth ar y pryd. Felly ni ddylid ystyried ein hadroddiad fel deunydd addas i'w ddefnyddio nac i ddibynnu arno gan unrhyw barti sy'n awyddus i gaffael hawliau yn ein herbyn ac eithrio'r Ymddiriedolaeth at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun. Bydd unrhyw barti arall ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a fydd yn cael gafael ar ein hadroddiad (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd KPMG LLP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth mewn perthynas â'n hadroddiad i unrhyw barti arall.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant fel y'i nodir yn natganiad yr Ymddiriedolaeth wedi'i dynnu'n gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar sail y tybiaethau a nodir yn y Nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth.

**Scott Cormack**
**Dros ac ar ran KPMG LLP, Archwiliwr Statudol**
Chartered Accountants
15 Canada Square
London E14 5GL

23 Mehefin 2011

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi mewn dwy ran, Rhan Un gan yr Ymddiriedolaeth a Rhan Dau gan y Bwrdd Gweithredol. Manylir ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn yr adran Llywodraethu yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Yn gryno, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau llywodraethu corfforaethol cymwys a rheoliadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth, gan gyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Caiff y datganiadau ariannol hyn eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Cyfunol Mehefin 2008 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hynny, mae'n rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y datgeliadau hyn, a archwilir, a chânt eu cynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad hwn.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i gynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol.

### Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwr i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan yr Ymddiriedolaeth ar 23 Mehefin 2011.

**Yr Arglwydd Patten o Barnes**
**Cadeirydd**
23 Mehefin 2011

# CYMRYD RHAN




Dyletswydd Ymddiriedolaeth y BBC yw cynrychioli pob un o dalwyr ffi'r drwydded. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni ymgysylltu â phob cynulleidfa i ddeall eu barn ac felly eu hystyried wrth wneud ein penderfyniadau. Gwnawn hyn drwy ein Cynghorau Cynulleidfa cenedlaethol, yn ogystal â thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol drwy ymgynghoriadau cyhoeddus a llawer o ddulliau eraill. Yma, edrychwn ar sut rydym wedi gweithio gyda chynulleidfaoedd dros y flwyddyn, gan roi trosolwg o waith y Cynghorau Cynulleidfa, ac edrych ymlaen at y gwaith a gynllunnir ar gyfer 2011/12.

Cyfarfu'r awdur lleol Lynn Shepherd â Joel Hammer o BBC Radio Oxford ym mis Chwefror. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu Radio Lleol y BBC yn 2011/12.

# Ymgysylltu â chynulleidfaoedd

Diben yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau allan o'r BBC. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni wrando ar yr hyn y maent yn ei ddweud a deall eu barn a'u blaenoriaethau. Eleni, canolbwyntiodd y trafodaethau â chynulleidfaoedd ar gyfeiriad strategol y BBC, ac ar orsafoedd BBC Radio 3, 4 a 7 a'r gorsafoedd radio cenedlaethol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yr oeddem yn eu hadolygu.

Mae ffi'r drwydded yn rhoi dyletswydd ar y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa. Er mwyn helpu'r BBC i wneud hyn, rydym yn gwneud llawer o waith ymchwil i gynulleidfaoedd ac yn cynnal ystod o ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn cael gwybodaeth am farn ac agweddau cynulleidfaoedd.

## Gwahodd barn

Mae ein Cynghorau Cynulleidfa yn rhoi cyngor i ni ar safbwyntiau o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Rydym hefyd yn sicrhau y gall unrhyw aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn ar y BBC drwy gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'n darnau mawr o waith. Er enghraifft, rydym yn ymgynghori wrth adolygu un o wasanaethau'r BBC neu wrth lunio polisïau'r BBC fel Canllawiau Golygyddol. Gall talwyr ffi'r drwydded gymryd rhan mewn sawl ffordd, gan gynnwys ffurflenni ymgynghori ar-lein a thaflenni ymgynghori drwy'r post neu dros e-bost.

Eleni, gwnaeth mwy o bobl gysylltu â ni nag erioed – dros 113,000 - fel rhan o'n hymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r ymatebion hyn wedi ein helpu i lunio'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, dywedodd dros 85,000 o bobl pam eu bod yn poeni am y posibilrwydd o gau BBC 6Music. Gwnaethom ystyried y safbwyntiau hyn ochr yn ochr â thystiolaeth arall ac, o ganlyniad, gwrthodwyd cynigion y Bwrdd Gweithredol i gau'r orsaf.

## Cael gafael ar farn mwy o bobl

Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cynrychioli barn pob cynulleidfa, nid yn unig y rhai sy'n dewis mynegi eu barn a chymryd rhan yn ein hymgynghoriadau. Felly rydym yn comisiynu gwaith ymchwil ymysg ystod ehangach o dalwyr ffi'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys arolygon sy'n cynrychioli'r genedl gyfan i'n galluogi i ddeall cryfder barn poblogaeth gyfan y DU a gwerthfawrogi unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau amrywiol o bobl.

Unwaith eto eleni gwnaethom edrych ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd mewn perthynas â chyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC mewn arolwg o dros 2,500 o oedolion.

I lywio ein harolwg o orsafoedd radio'r BBC yn y gwledydd datganoledig, comisiynwyd arolygon ymysg gwrandawyr, gan gynnwys arolygon dwyieithog yng Nghymru a'r Alban ar gyfer BBC Radio Cymru a BBC Radio nan Gàidheal, yn y drefn honno.

Rydym hefyd yn defnyddio technegau ymchwil ansoddol megis cyfweliadau unigol, grwpiau ffocws neu weithdai i gael adborth manylach ar faterion penodol. Eleni, er mwyn llywio ein penderfyniad ar strategaeth y BBC ar gyfer y dyfodol, cynhaliwyd grwpiau ffocws ledled y DU.

I ategu'r gwaith ymchwil a'r ymgynghoriadau hyn, rydym hefyd yn siarad yn uniongyrchol â chynulleidfaoedd sianelau neu orsafoedd penodol. Eleni, fel rhan o'n harolwg o BBC Radio 3, BBC Radio 4 a BBC Radio 7, gwnaethom siarad â chynulleidfaoedd a oedd yn mynychu sesiynau recordio mewn stiwdio i ddarganfod eu barn ar y gorsafoedd. Roeddem yn arbennig o awyddus i archwilio effaith ddiwylliannol ehangach BBC Radio 3 a rôl drama ar BBC Radio 4 yn ystod yr arolygon hyn, felly ffurfiwyd grwpiau trafod yn cynnwys cyrff o'r diwydiant, cynhyrchwyr, awduron ac artistiaid i roi gwell dealltwriaeth i ni o farn y partïon hyn sydd â diddordeb.




Wal lofnodi BBC 6Music yng Ngŵyl Glastonbury y llynedd.

# Cynghorau Cynulleidfa

Mae Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n cael eu cadeirio gan Ymddiriedolwr y wlad honno, yn sicrhau bod barn talwyr ffi'r drwydded ledled y DU yn chwarae rhan ganolog yng ngwaith yr Ymddiriedolaeth a dyfodol y BBC. Eleni, croesawodd y Cynghorau ffocws y BBC ar natur nodedig yn ei strategaeth newydd.

Caiff Cynghorau eu recriwtio i adlewyrchu natur amrywiol y DU, a gwirfoddolwyr yw'r aelodau. Maent yn ystyried barn talwyr ffi'r drwydded ac yn rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth ar faterion pynciol. Ymgynghorir â hwy ar gynigion am wasanaethau newydd a pha mor effeithiol y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus. Bob blwyddyn maent yn awgrymu ffyrdd o wella gwasanaethau'r BBC yn seiliedig ar yr hyn y mae'r cynulleidfaoedd yn ei ddweud wrthynt.

### Gwrando ar gynulleidfaoedd

Cynhaliodd y Cynghorau dros 70 o gyfarfodydd gyda thalwyr ffi'r drwydded ledled y DU, o Gaint i Ynys Lewis. Gwrandawodd aelodau ar farn grwpiau penodol fel myfyrwyr, pobl hŷn a rhieni plant iau, yn ogystal â barn cynulleidfaoedd ehangach ar strategaeth a pherfformiad gwasanaethau'r BBC.

### Perfformiad yn erbyn blaenoriaethau cynulleidfaoedd ar gyfer 2010/11

Y llynedd, nododd y Cynghorau fod cynulleidfaoedd am weld mwy o syniadau newydd, a chroesawodd aelodau'r ffocws ar natur nodedig yn strategaeth newydd y BBC. Gwnaethant hefyd groesawu ei ymrwymiad i wella mynediad i wasanaethau'r BBC. Nododd y Cynghorau welliannau o ran darllediadau celfyddydol, gohebu gwleidyddol ar Radio Lleol yn Lloegr a chynyrchiadau teledu rhwydwaith o'r gwledydd. Yn dilyn cyngor gan Gynghorau, gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol gynnal gwaith ymchwil ar y ffordd y mae gwasanaethau rhwydwaith yn portreadu cymunedau amrywiol ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r canlyniadau bellach yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gomisiynu rhaglenni.

### Rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth

Rhoddodd y Cynghorau gyngor i'r Ymddiriedolaeth ar farn cynulleidfaoedd ar eitemau busnes allweddol fel yr arolwg strategaeth ac arolygon gwasanaeth (teledu'r BBC; BBC Radio 3, 4 a 7; Radio'r BBC yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon; BBC ALBA). Pwysleisiodd Cyngor Cynulleidfa Lloegr y gwerth y mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar wasanaethau lleol a rhanbarthol a gweld eu cymunedau'n cael eu hadlewyrchu. Rhybuddiodd y Cynghorau y gallai'r diffyg rhaglennu dewisol ar BBC One HD ledled y DU amharu ar y gwaith o gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus.

### Cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus

Nododd Cyngor Cynulleidfa Lloegr werthfawrogiad eang o'r BBC, ac awydd am fwy o newyddion Ewropeaidd a mwy o gymariaethau rhwng gwahaniaethau ym mholisi cyhoeddus y gwledydd. Nododd Cyngor Cynulleidfa'r Alban y gellid cyflawni'r pwrpasau'n fwy effeithiol drwy gydbwyso newyddion am yr Alban a newyddion am ddatblygiadau polisi cyhoeddus yn Lloegr yn well. Nododd Cyngor Cynulleidfa Cymru na ddylai'r BBC leihau'r ddarpariaeth o deledu Saesneg ymhellach wrth geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Nododd Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon fod cynulleidfaoedd am gael esboniad gwell o faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus, yn arbennig os ydynt yn wahanol i'r rheini mewn rhannau gwahanol o'r DU.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2011/12

Codwyd pryderon gan Gynghorau ynghylch mynediad cynulleidfaoedd i wasanaethau, yn arbennig rhai llwyfannau digidol. Nodwyd y dylai'r BBC chwarae mwy o ran yn hwyluso trafodaethau cyhoeddus, ac y dylai gwaith gohebu rhyngwladol fod yn ehangach a manylach. Gofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth barhau i herio'r Bwrdd Gweithredol i wella'r ffordd y caiff cymunedau a hunaniaethau gwahanol eu portreadu.

O ystyried y cyfyngiadau ariannol yn dilyn setliad ffi'r drwydded, mae Cynghorau am sicrhau y caiff gwerth am arian ei geisio'n deg ar gyfer pob cynulleidfa. Nododd Cynghorau fod cynulleidfaoedd am weld safonau cyson o ran ansawdd ar draws yr holl wasanaethau, a chodwyd pryderon ynghylch pa mor dda y mae anghenion cynulleidfaoedd hŷn yn cael eu diwallu.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am gyngor y Cynghorau yn arolygon blynyddol y Cynghorau eu hunain.

# Cynlluniau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011/12

Ein nod yn 2011/12 fydd sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yn erbyn setliad heriol newydd ffi'r drwydded. Ni fydd cymaint o adnoddau ar gael ac felly bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn ystod y flwyddyn i ddod. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn dal i gael gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel gan y BBC. Byddwn yn parhau i ymgynghori'n eang â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys ein Cynghorau Cynulleidfa, i'n helpu i wneud hyn yn iawn. Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif waith sydd wedi'i gynllunio eleni. Mae manylion llawn ar gael ar ein gwefan.

### Rhoi strategaeth y BBC ar waith

Byddwn yn monitro ac yn mesur cynnydd i sicrhau bod y BBC, waeth pa bwysau ariannol sydd arno, yn dod yn fwy nodedig, yn fwy effeithlon, yn fwy tryloyw ac yn fwy sensitif i'w effaith bosibl ar y farchnad.

### Eleni, dylai'r BBC

- gynyddu natur nodedig ac ansawdd ei allbwn
- gwella'r gwerth am arian y mae'n ei ddarparu i dalwyr ffi'r drwydded
- gosod safonau newydd mewn perthynas â bod yn agored a thryloyw
- gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa

Byddwn yn parhau i olrhain canfyddiadau cynulleidfaoedd a mesurau ansawdd eraill i fesur gwelliant.

### Gweithredu setliad ffi'r drwydded

Byddwn yn asesu cynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer gweithredu setliad newydd ffi'r drwydded yn erbyn y pedair blaenoriaeth a nodwyd yn y strategaeth *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*.

- rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol gynnal arolwg sylfaenol o'i sail costau a natur gwasanaethau a gweithgareddau ac i gynnig arbedion yn seiliedig ar gostau
- rydym yn bwriadu penodi cynghorwyr annibynnol i brofi'r cynigion a sicrhau eu bod yn gadarn
- byddwn yn parhau i ymgynghori'n eang â'r cyhoedd i brofi effeithiau tebygol y cynigion
- rydym yn gobeithio cyflwyno ein casgliadau terfynol erbyn diwedd 2011

### Arolygon

### Arolygon o wasanaethau

Rydym yn adolygu pob un o wasanaethau'r BBC o leiaf unwaith bob pum mlynedd yn erbyn trwydded y gwasanaeth i asesu perfformiad.

Yn 2011/12 caiff y gwasanaethau canlynol eu hadolygu:

- BBC Radio 5 Live
- BBC Radio 5 Live Sports Extra
- Sianel BBC News
- BBC Parliament
- Radio Lleol y BBC yn Lloegr
- BBC Asian Network

### Arolygon gwerth am arian

Rydym wedi gofyn i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gynnal yr astudiaethau gwerth am arian canlynol:

- rhaglen gwelliant parhaus
- rheoli gorbenion





# Cysylltu â'r Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i glywed eich barn yn ystod ymgynghoriadau ac arolygon gwasanaeth. Gallwch hefyd gysylltu â'r Ymddiriedolaeth i wneud sylwadau ar faterion yn ymwneud â busnes yr Ymddiriedolaeth, apelio yn erbyn penderfyniad a wnaeth y Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â chwyn, neu gwyno am yr Ymddiriedolaeth neu Uned yr Ymddiriedolaeth. Gallwch gysylltu â'r Ymddiriedolaeth drwy'r post, dros e-bost neu dros y ffôn.

### Ymddiriedolaeth y BBC

1st Floor
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

Ffôn: Llinell Wybodaeth y BBC ar 03700 103 100[1] neu ffôn testun ar 03700 100 212[2].

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm.

Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o faterion yn effeithiol drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r rhan berthnasol o'r BBC, yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cwynion am raglenni, ymholiadau ynglŷn â thalu eich trwydded deledu, cwestiynau am sut i gael tocynnau i sioeau'r BBC neu sut i weithio i'r BBC, ac awgrymiadau o ran syniadau ar gyfer rhaglenni. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gysylltu â'r BBC ynghylch y cwestiynau hyn, gweler www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

### Cwynion

Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gan y BBC fframwaith effeithiol, teg a chlir ar waith i ymateb i gwynion. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn am y broses gwyno ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/complaints.

### Cynghorau Cynulleidfa'r BBC

Mae'r Cynghorau yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ynghylch pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded ledled y DU. Hefyd, mae gan y Cynghorau hawl ffurfiol i gael eu cynnwys ar faterion fel arolygon o drwyddedau gwasanaeth.

I gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa:

**Cyngor Cynulleidfa Lloegr**

E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:

BBC Audience Council England
The Mailbox
Birmingham B1 1RF

**Cyngor Cynulleidfa'r Alban**

E-bost: acs@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:

BBC Audience Council Scotland
Zone G.11
40 Pacific Quay
Glasgow G51 1DA

**Cyngor Cynulleidfa Cymru**

E-bost: acw@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:

Cyngor Cynulleidfa Cymru'r BBC
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

**Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon**

E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:

BBC Audience Council Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Room G08
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

### Credydau ffotograffiaeth

Mae gan y BBC hawlfraint dros y ffotograffau neu maent wedi'u defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, ac eithrio tudalennau 1-3 *Tosca*, (h) Metropolitan Opera. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

[1] Gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant.
[2] Rhifau 'ledled y DU' yw rhifau 0370 ac ni fyddant yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London WIA IAA
bbc.co.uk
(h) BBC 2011